# Adolygiad Addysg Uwch (Darparwyr Amgen) o Ganolfan y Dechnoleg Amgen

Rhagfyr 2017

## Cynnwys

**Yr adolygiad yma** ........ **1**
**Canfyddiadau allweddol** ........ **2**
Y beirniadaethau ........ 2
Y nodweddion o arfer da ........ 2
**Ynghylch y darparwr** ........ **3**
**Esboniad o'r canfyddiadau** ........ **4**
1 Y Feirniadaeth am: Y modd y cynhelir safonau academaidd y dyfarniadau a gynigir ar ran cyrff dyfarnu graddau a/neu sefydliadau dyfarnu eraill ........ 4
2 Y Feirniadaeth am: Ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr ........ 15
3 Y Feirniadaeth am: Ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu ........ 34
4 Y Feirniadaeth am: Y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr ........ 37
**Rhestr termau** ........ **39**

# Yr adolygiad yma

Mae hwn yn adroddiad Adolygiad Addysg Uwch (Darparwyr Amgen) a weithredwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen ('y Ganolfan'). Cafwyd yr adolygiad rhwng 12 a 14 Rhagfyr 2017 ac fe'i weithredwyd gan dîm o dri adolygwr, sef:

- Dr Tommie Anderson-Jaquest
- Dr Libby Pearson
- Mr Harry Williams (adolygwr sy'n fyfyriwr).

Prif bwrpas yr adolygiad oedd ymchwilio'r ddarpariaeth addysg uwch a barnu a yw safonau ac ansawdd academaidd yn cyflawni disgwyliadau'r DU ai peidio.
Y disgwyliadau hyn yw'r datganiadau yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)[1] sy'n nodi beth mae holl ddarparwyr addysg uwch y DU yn ei ddisgwyl ganddynt eu hunain ac felly gan ei gilydd, a'r hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl ganddynt.

Yn yr Adolygiad Addysg Uwch (Darparwyr Amgen), mae tîm adolygu QAA:

- yn gwneud beirniadaethau am
  - y modd y gosodir ac y cynhelir safonau academaidd
  - ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr
  - yr wybodaeth a ddarperir am ddarpariaeth addysg uwch
  - y modd y sicrheir gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr
- yn gwneud argymhellion
- yn nodi nodweddion o arfer da
- yn cadarnhau'r camau gweithredu y mae'r darparwr yn eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd.

Mae gwefan QAA yn rhoi rhagor o wybodaeth am QAA[2] ac yn esbonio'r dull ar gyfer gwneud Adolygiad Addysg Uwch (Darparwyr Amgen)[3]. I gael esboniad o'r termau gwelwch y rhestr termau ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

[1] Cyhoeddir Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (yn y Saesneg yn unig ar hyn o bryd) ar: www.qaa.ac.uk/quality-code.
[2] Gwefan QAA: www.qaa.ac.uk/cy/aboutus/pages/wales.
[3] Adolygiad Addysg Uwch (Darparwyr Amgen): www.qaa.ac.uk/cy/reviewsandreports/pages/higher-education-review-wales.aspx.

# Canfyddiadau allweddol

## Y beirniadaethau

Rhoddodd tîm adolygu QAA y beirniadaethau dilynol am y ddarpariaeth addysg uwch.

- Mae'r modd y cynhelir safonau academaidd y dyfarniadau a gynigir ar ran cyrff dyfarnu graddau'n **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn **derbyn cymeradwyaeth**.
- Mae ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu'n **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae'r modd y sicrheir gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn **derbyn cymeradwyaeth**.

## Y nodweddion o arfer da

Canfu tîm adolygu QAA y nodweddion o **arfer da** a ganlyn.

- Y dulliau arloesol o gynllunio a datblygu rhaglenni hyblyg sy'n darparu ystod eang o sgiliau ymarferol a phroffesiynol a thrylwyredd academaidd i'r myfyrwyr yn unol â chenhadaeth a gwerthoedd y Ganolfan (Disgwyliadau B1, Gwelliant).
- Y profiad dysgu hyblyg sydd wedi'i drefnu'n dda ac yn gwella darpariaeth y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr (Disgwyliad B3).
- Y dull o gydnabod gallu'r myfyriwr unigol a'r adnoddau arbenigol sydd ar gael i gefnogi eu datblygiad academaidd, personol a phroffesiynol (Disgwyliad B4).
- Yr ystod eang o weithgareddau asesu, gan gynnwys prosiectau byw lle defnyddir adnoddau pwrpasol i ymgysylltu a herio'r myfyrwyr (Disgwyliadau B6, B4).
- Yr ymgysylltiad cymunedol cryf sy'n hybu amgylchedd positif ac arloesol i'r rhanddeiliaid i gyd yn y broses wella strategol (Disgwyliadau B3, B4, Gwelliant).

## Ynghylch y darparwr

Mae Canolfan y Dechnoleg Amgen ('y Ganolfan') yn ganolfan addysg a chanolfan ymwelwyr, sy'n arddangos ffyrdd o ymateb yn ymarferol i'r galw am gynaliadwyedd. Mae'r Ganolfan, sydd wedi'i seilio ym Machynlleth ym Mhowys, yn ymwneud â phob agwedd o fyw'n wyrdd gan gynnwys adeiladu ecogyfeillgar, eco-lanweithdra, rheoli coetir, ynni adnewyddadwy, effeithiolrwydd ynni a thyfu organig. Mae hi wedi bod wrthi ers 40 mlynedd yn rhoi addysg ym maes cynaliadwyedd i bobl o bob oed.

Mae'r Ganolfan yn darparu ei rhaglenni addysg uwch i gyd yn ei Hysgol Graddedigion yr Amgylchedd, a chânt oll eu dilysu naill ai gan Brifysgol Dwyrain Llundain neu gan Brifysgol John Moores Lerpwl. Mae cenhadaeth y Ganolfan yn ymwneud â chwilio am dechnolegau a ffyrdd o fyw sy'n gyflawn ac ecolegol gadarn a chynaliadwy drwy'r byd i gyd. Mae gan y Ganolfan agwedd gyfannol tuag at ei gwaith, sy'n cyfuno syniadau ac arferion yn ymwneud â defnyddio tir, adeiladau, cynhyrchu a defnyddio ynni, diet ac iechyd, rheoli gwastraff ac ailgylchu.

Ers yr adolygiad gan QAA ym mis Rhagfyr 2016, mae Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd wedi ffurfio partneriaeth gyda phrifysgol ddilysu newydd, Prifysgol John Moores Lerpwl, i ddatblygu cwrs newydd yn y maes cyffredinol o ddefnyddio tir a chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy. Mae'r Ganolfan hefyd wedi cyflwyno cwrs newydd, a ddilysir gan Brifysgol Dwyrain Llundain, dan y teitl 'Sustainability in Energy Provision and Demand Management'.

Yn rhannol o ganlyniad i gyflwyno'r ddau gwrs newydd yma, bydd y nifer a dderbynnir i'r gyfres o gyrsiau yn y rhaglen MSc 'Sustainability and Adaptation' yn cynyddu i fwy na 120 eleni, yn uwch na 72 y llynedd, 40 y flwyddyn flaenorol a dim ond 22 yn 2014. Mae'r Ganolfan yn credu y bydd nifer y myfyrwyr newydd yn cynyddu'n dda ar ei lefel yn 2017 unwaith y bydd y rhaglen Meistr mewn Pensaernïaeth wedi'i sefydlu.

Ymysg y sialensiau allweddol sy'n wynebu'r Ganolfan mae cynnal recriwtiad cadarn o fyfyrwyr, cyllid myfyrwyr a datblygu'r bartneriaeth newydd â Phrifysgol John Moores Lerpwl.

Ym mis Rhagfyr 2013, cafodd y Ganolfan Adolygiad QAA ar gyfer Dynodi Cyrsiau Penodol, a derbyniodd bedair nodwedd o arfer da, gydag un argymhelliad 'byddai'n fuddiol' a phum argymhelliad 'byddai'n fanteisiol'. Nododd adroddiadau monitro blynyddol dilynol yn 2015 ac yn 2016 bod y Ganolfan wedi ymdrin â'r argymhellion yn llawn ac wedi datblygu'r arferion da ymhellach.

## Esboniad o'r canfyddiadau

Mae'r adran hon yn esbonio canfyddiadau'r adolygiad yn fwy manwl.

# 1 Y Feirniadaeth am: Y modd y cynhelir safonau academaidd y dyfarniadau a gynigir ar ran cyrff dyfarnu graddau a/neu sefydliadau dyfarnu eraill

**Disgwyliad (A1): Er mwyn sicrhau safonau academaidd trothwy, mae cyrff dyfarnu graddau'n:**

**a) sicrhau bod gofynion y *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) yn cael eu cyflawni trwy'r camau canlynol:**

- **gosod eu cymwysterau ar lefel briodol y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch sy'n berthnasol**
- **sicrhau bod canlyniadau dysgu'r rhaglen yn alinio â'r disgrifydd cymhwyster perthnasol yn y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch sy'n berthnasol**
- **enwi'r cymwysterau yn unol â'r confensiynau teitlo a nodir yn y fframweithiau ar gyfer cymwysterau addysg uwch**
- **dyfarnu cymwysterau i ddynodi cyflawni canlyniadau dysgu'r rhaglen a ddiffinnir yn bositif**

**b) ystyried arweiniad QAA ar nodweddion cymhwyster**

**c) lle maent yn dyfarnu credydau'r DU, aseinio gwerthoedd credyd a llunio rhaglenni sy'n alinio â manylebau'r fframwaith credydau cenedlaethol sy'n berthnasol**

**d) ystyried y Datganiadau Meincnodi Pwnc perthnasol.**

**Cod Ansawdd, *Pennod A1: Pwyntiau Cyfeirio'r DU ac Ewrop ar gyfer Safonau Academaidd***

### Y canfyddiadau

1.1 Mae gan y Ganolfan gytundebau partneriaeth gyda dau gorff dyfarnu, Prifysgol John Moores Lerpwl a Phrifysgol Dwyrain Llundain, ac mae'n defnyddio'r trefniadau yma i ddyfarnu ei graddau. Mae'r cytundebau partneriaeth yn amlinellu'n glir beth yw ei chyfrifoldebau a ddirprwywyd iddi gan Brifysgol John Moores Lerpwl a Phrifysgol Dwyrain Llundain, am sicrhau bod y safonau trothwy'n cael eu cynnal ym mhob un o raglenni gradd ôl-raddedig Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd ('yr Ysgol') y Ganolfan - mewn perthynas â dilysu, cymeradwyo ac adolygu rhaglenni. Y cyrff dyfarnu sy'n penderfynu a yw gofynion y FHEQ, gofynion y Datganiadau Meincnodi Pwnc perthnasol a gofynion unrhyw gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio yn cael eu bodloni.

1.2 Ar gyfer y rhaglenni hynny, mae'r Ganolfan yn gyfrifol ar y cyd am ddatblygu'r rhaglenni ac am gynhyrchu'r wybodaeth ddiffiniol am y rhaglenni, er mwyn sicrhau ei bod yn glynu ac yn cyfeirio at agweddau Disgwyliad A1, gan gynnwys aliniad â'r FHEQ a'r Datganiadau Meincnodi Pwnc perthnasol. Mae gan Bennaeth Ysgol y Ganolfan y cyfrifoldeb gweithredol am ddarparu'r rhaglenni, ac mae'n adrodd yn rheolaidd i Gyngor Academaidd

y Ganolfan. Mae'r Llawlyfr Sicrhau Ansawdd ac agendâu a chofnodion y Cyngor Academaidd yn cadarnhau bod y cyfrifoldeb hwn yn cael ei gyflawni. Felly, mae'r Ganolfan wedi datblygu system fewnol effeithiol i osod a chynnal safonau academaidd sy'n cydymffurfio â'r safonau academaidd trothwy a osodir gan ei chyrff dilysu, a fyddai'n galluogi i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

1.3 Bu'r tîm adolygu'n craffu ar ystod o ddogfennau, sy'n cynnwys y Strategaeth Dysgu ac Addysgu; Llawlyfr Sicrhau Ansawdd; manylebau rhaglenni; llawlyfrau modiwlau; dogfennaeth gymeradwyo; adroddiadau'r arholwyr allanol; ac adroddiadau monitro'r broses adolygu flynyddol; a bu'n cwrdd â staff y Ganolfan a chynrychiolydd o un o'r partneriaid dyfarnu, yn ogystal â'r myfyrwyr.

1.4 Mae'r dogfennau'n cadarnhau bod y Ganolfan yn darparu ac yn asesu pob rhaglen yn unol â rheoliadau'r partner dyfarnu perthnasol, ac yn cadarnhau ei bod yn bodloni'r gofynion a roddir arni i fonitro ac adolygu. Mae trafodaethau gyda'r staff a'r myfyrwyr ac adolygiad o ddogfennau perthnasol yn cadarnhau bod prosesau mewnol y Ganolfan yn gadarn, bod y staff academaidd wedi'u paratoi'n dda ar gyfer eu rolau o fewn y cyfrifoldebau dilysu, a bod yr holl gymwysterau wedi'u gosod ar y lefel briodol, ac wedi'u henwi yn unol â'r confensiwn teitlo a amlinellir yn y FHEQ.

1.5 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod gan y Ganolfan brosesau mewnol priodol i'w dilyn a'i bod yn glynu at y cyfrifoldebau a ddirprwywyd iddi gan ei chyrff dyfarnu, ac y bydd hyn yn galluogi i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**
**Lefel y risg: Isel**

## Disgwyliad (A2.1): Er mwyn sicrhau eu safonau academaidd, mae cyrff dyfarnu graddau'n sefydlu fframweithiau a rheoliadau academaidd sy'n eglur a chynhwysfawr i lywio sut y maent yn dyfarnu credyd neu gymhwyster academaidd.

### Cod Ansawdd, *Pennod A2: Pwyntiau Cyfeirio'r Cyrff Dyfarnu Graddau ar gyfer Safonau Academaidd*

### Y canfyddiadau

1.6 Prifysgol John Moores Lerpwl a Phrifysgol Dwyrain Llundain sy'n rheoli'r broses o sefydlu fframweithiau academaidd eglur a chynhwysfawr ar gyfer dyfarnu credydau a chymwysterau academaidd i raglenni y mae'r Ganolfan yn eu darparu, yn unol â rheoliadau a fframweithiau academaidd trosfwaol y corff dyfarnu perthnasol. Mewn ymateb i hyn, mae'r Ganolfan wedi datblygu dull strategol yn y cyswllt hwn ac wedi datblygu fframwaith mewnol sydd wedi'i sefydlu'n dda ar gyfer monitro safonau academaidd a datblygu rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â chanllawiau'r corff dilysu. Felly, mae gan y Ganolfan systemau priodol sy'n ddigonol i alluogi i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

1.7 Bu'r tîm adolygu'n craffu ar ddogfennau sy'n cynnwys y trefniadau cytundebol gyda'r cyrff dyfarnu; cofnodion y Cyngor Academaidd; dogfennaeth ddilysu; cofnodion y Pwyllgorau Rhaglen ar gyfer pob rhaglen; cofnodion Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr; rheoliadau a pholisïau'r Ganolfan; y Cynllun Strategol ar gyfer Dysgu ac Addysgu; adroddiadau monitro blynyddol ac adroddiadau'r arholwyr allanol; a bu'n cwrdd â'r staff a'r myfyrwyr.

1.8 Mae'r polisïau a'r rheoliadau a gyflwynwyd i'r Ganolfan yn dangos bod y cyrff dyfarnu'n cynnal y fframweithiau a'r rheoliadau academaidd sy'n rheoli'r dyfarniadau y maent yn eu darparu.

1.9 Mewn ymateb i hyn, mae'r Ganolfan wedi datblygu fframweithiau llywodraethu a strwythurau pwyllgorau sy'n eglur er mwyn sicrhau bod y safonau academaidd yn cael eu cynnal, ac mae hyn yn cynnwys Cyngor Academaidd trosfwaol sy'n goruchwylio ansawdd y cyfleoedd dysgu. Mae'r myfyrwyr a'r cyrff dyfarnu'n cael eu cynrychioli ar y Cyngor ac mae hwnnw'n rhoi blaenoriaeth i ddatrys problemau a chynhyrchu dogfennaeth sy'n dangos cydymffurfiad â'r gofynion am gynnal safonau academaidd ei phartneriaid dilysu.

1.10 Yn ymarferol, mae'r trefnau a'r prosesau sy'n ategu rhaglenni ôl-raddedig y Ganolfan yn dangos dealltwriaeth glir o'r rheoliadau academaidd a'r rheoliadau asesu. Roedd y staff sy'n cyfranogi yn y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm yn dangos sut maent wedi gweithio yn unol â rheoliadau'r cyrff dyfarnu, ac roedd hynny'n cadarnhau bod y Ganolfan yn bodloni eu gofynion mewn perthynas â hyn. Rhoddodd y staff a'r myfyrwyr drosolwg clir o gynllun a strwythur y rhaglenni, y rheoliadau academaidd a'r rheoliadau asesu, cyfraniadau allanol, a'r trefnau monitro ac adolygu; mae'r staff yn deall gwahanol ofynion pob un o'i chyrff dyfarnu.

1.11 Mae'r ffordd y gweithredir prosesau o oruchwylio a sicrhau ansawdd yn sicrhau bod y safonau academaidd yn cael eu gosod a'u cynnal yn briodol. Mae'r tîm adolygu'n cadarnhau bod trefniadau llywodraethu academaidd y Ganolfan yn bodloni gofynion pob un o'i chyrff dyfarnu. Mae'r trefniadau hyn yn darparu fframwaith eglur a chynhwysfawr sy'n ategu gweithrediad y rheoliadau sy'n llywio dyfarniad credyd academaidd. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad wedi'i gyflawni, a bod lefel y risg yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**
**Lefel y risg: Isel**

## Disgwyliad (A2.2): Mae cyrff dyfarnu graddau'n cadw cofnod diffiniol o bob rhaglen a chymhwyster y maent yn eu cymeradwyo (a newidiadau dilynol iddynt) sy'n gweithredu fel pwynt cyfeirio ar gyfer darparu ac asesu'r rhaglen, ei monitro a'i hadolygu, ac ar gyfer darparu cofnodion astudio i fyfyrwyr a chyn-fyfyrwyr.

**Cod Ansawdd, *Pennod A2: Pwyntiau Cyfeirio'r Cyrff Dyfarnu Graddau ar gyfer Safonau Academaidd***

### Y canfyddiadau

1.12 Y cyrff dyfarnu sy'n dilysu, cymeradwyo ac adolygu'r rhaglenni ac sy'n cadw cofnod diffiniol o bob rhaglen y maent wedi'i chymeradwyo i'w darparu gan y Ganolfan. Mae gan y Ganolfan systemau priodol ac mae'r rhain wedi'u hamlinellu'n glir yn y Llawlyfr Sicrhau Ansawdd, gyda chyfeiriadau at bolisïau a rheoliadau'r corff dyfarnu. Byddai hyn yn galluogi i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

1.13 Bu'r tîm adolygu'n craffu ar ystod o ddogfennau, sy'n cynnwys Llawlyfr Sicrhau Ansawdd y Ganolfan; manylebau rhaglenni; manylebau modiwlau; llawlyfrau myfyrwyr; agendâu a chofnodion y Cyngor Academaidd, cyfarfodydd y Timau Rhaglen a'r Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr; adroddiadau monitro blynyddol; dogfennau'n ymwneud ag addasu/ cymeradwyo rhaglenni a modiwlau; adroddiadau safoni allanol ac adroddiadau'r arholwyr allanol; a bu'n cwrdd â'r staff a'r myfyrwyr.

1.14 Mae'r ddogfennaeth gymeradwyo a gyflwynwyd i'r Ganolfan yn dangos bod y cyrff dyfarnu'n cadw cofnod diffiniol ar gyfer pob rhaglen a'u bod yn gyfrifol am sicrhau bod dealltwriaeth hollol glir gan bobl o natur eu rhaglenni perthnasol sydd wedi cael eu cymeradwyo'n ffurfiol i'w darparu gan y Ganolfan.

1.15 Mae hyn wedi'i esbonio mewn cofnod diffiniol ar gyfer pob rhaglen, a ddefnyddir wedyn fel y pwynt cyfeirio gan staff addysgu ar gyfer darparu'r rhaglen, gan arholwyr mewnol ac allanol ar gyfer asesu'r rhaglen, ac yn dilyn hynny gan y corff dyfarnu perthnasol, ac yn fewnol, ar gyfer monitro ac adolygu'r rhaglen. Er enghraifft, mae Prifysgol Dwyrain Llundain yn cwblhau adroddiadau'r Broses Adolygu a Gwella ar gyfer pob rhaglen yn flynyddol. Mewn perthynas â Phrifysgol John Moores Lerpwl, mae'r rhaglen yn ei dyddiau cynnar ar hyn o bryd ac yn ôl yr amserlen bydd y gwaith monitro'n cychwyn yn 2018. Defnyddir y cofnod diffiniol hefyd fel sail y cofnod astudio, ac mae'n sicrhau bod gwybodaeth am y rhaglen astudio ar gael i fyfyrwyr ar ddechrau eu rhaglenni a thrwy gydol eu hastudiaethau.

1.16 Mae'r cofnodion yn cadarnhau bod y Ganolfan yn darparu ac yn asesu pob un o'r rhaglenni yn unol â rheoliadau'r corff dyfarnu, a'i bod yn bodloni eu gofynion ynglŷn â monitro ac adolygu. Mae trafodaethau gyda'r staff a'r myfyrwyr, ynghyd ag adolygiad o sampl o'r trawsgrifiadau a roddwyd i'w myfyrwyr, yn cadarnhau bod y Ganolfan yn rheoli darpariaeth y cofnodion astudio yn briodol i'w myfyrwyr a'i chyn-fyfyrwyr.

1.17 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Ganolfan yn bodloni gofynion pob un o'i chyrff dyfarnu wrth ddarparu rhaglenni cymeradwy. Felly, mae'r Disgwyliad yn cael ei gyflawni, ac mae lefel y risg yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**
**Lefel y risg: Isel**

## Disgwyliad (A3.1): Mae cyrff dyfarnu graddau'n sefydlu prosesau, a'u gweithredu'n gyson, ar gyfer cymeradwyo rhaglenni a addysgir a graddau ymchwil sy'n sicrhau bod safonau academaidd yn cael eu gosod ar lefel sy'n cwrdd â safon trothwy'r DU ar gyfer y cymhwyster a'u bod yn cyfateb â'u fframweithiau a rheoliadau academaidd eu hunain.

### Cod Ansawdd, *Pennod A3: Sicrhau Safonau Academaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau*

### Y canfyddiadau

1.18 Mae Swyddfa Partneriaethau Academaidd y corff dyfarnu perthnasol yn rheoli'r cyfrifoldebau am sicrhau bod pob un o'r rhaglenni wedi cael eu dilysu neu eu hail-ddilysu yn unol â rheoliadau'r cyrff dyfarnu, o dan y trefniadau cytundebol a'r cytundebau partneriaeth ar gyfer darpariaeth ôl-raddedig.

1.19 Mae gan y Ganolfan brosesau ar gyfer cymeradwyo rhaglenni sy'n gweithio'n briodol ac sy'n cydymffurfio â fframweithiau a rheoliadau academaidd ei chyrff dyfarnu. Mae'r fframweithiau llywodraethu sydd ganddi a'r Llawlyfr Sicrhau Ansawdd yn diffinio'r prosesau'n glir ar gyfer dilysu rhaglenni a sicrhau eu hansawdd. Felly, mae gan y Ganolfan systemau priodol sy'n ddigonol i alluogi i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

1.20 Bu'r tîm adolygu'n ystyried yr holl dystiolaeth ddogfennol a gyflwynwyd gan y Ganolfan, gan gynnwys y Llawlyfr Sicrhau Ansawdd a'r polisïau sy'n berthnasol i'r Disgwyliad hwn, a bu'n cwrdd â'r staff uwch a'r staff addysgu, yn ogystal â'r myfyrwyr.

1.21 Mae'r ddogfennaeth gymeradwyo'n darparu tystiolaeth i ddangos bod y Ganolfan yn gwneud defnydd eang o gyfraniad gan randdeiliaid allanol a defnydd priodol o Ddatganiadau Meincnodi Pwnc wrth gynllunio a chymeradwyo rhaglenni. Os nad oes unrhyw Ddatganiad Meincnodi Pwnc sy'n berthnasol i'r ddarpariaeth wedi'i theilwra, mae'r Ganolfan yn datblygu ei rhaglenni gan gyfeirio at ystod eang o feincnodau cysylltiedig. Mae hyn yn galluogi cynllunio a datblygu rhaglenni sy'n hyblyg ac sy'n darparu ystod eang o sgiliau ymarferol a phroffesiynol a thrylwyredd academaidd i'r myfyrwyr yn unol â chenhadaeth a gwerthoedd y Ganolfan. Mae'r broses o gymeradwyo rhaglenni'n profi a yw'r safonau wedi'u gosod ar y lefel briodol.

1.22 Dangosodd aelodau o'r staff sy'n cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a chymeradwyo rhaglenni ddealltwriaeth drwyadl o brosesau'r cyrff dyfarnu graddau, ac o'r ffordd y maent yn cael eu defnyddio i brofi a yw'r safonau academaidd wedi'u gosod ar y lefel briodol, ac o'r ffordd y maent wedi sicrhau bod y canlyniadau dysgu wedi'u halinio â'r disgrifwyr perthnasol. Mae dogfennaeth briodol ar gael sy'n dangos y ffordd y mae modiwlau pob rhaglen yn cael eu mapio yn erbyn y canlyniadau dysgu.

1.23 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Ganolfan yn bodloni gofynion pob un o'i chyrff dyfarnu yn y ffordd y mae'n cynllunio a datblygu rhaglenni cymeradwy, a bod y Disgwyliad wedi'i gyflawni a bod lefel y risg yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**
**Lefel y risg: Isel**

**Disgwyliad (A3.2): Mae cyrff dyfarnu graddau'n sicrhau bod credydau a chymwysterau'n cael eu dyfarnu dim ond pan fo:**

- **asesiad yn dangos cyflawni'r canlyniadau dysgu perthnasol (canlyniadau dysgu'r modiwl ar gyfer credydau, a chanlyniadau dysgu'r rhaglen ar gyfer cymwysterau)**
- **safonau trothwy'r DU a'u safonau academaidd eu hunain wedi'u bodloni.**

**Cod Ansawdd, *Pennod A3: Sicrhau Safonau Academaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau***

## Y canfyddiadau

1.24 Yn y pendraw, y cyrff dyfarnu sy'n gyfrifol am gynnal safonau academaidd y rhaglenni y maent yn eu dilysu, ac am gwrdd â'r Disgwyliadau sydd wedi'u nodi yn Rhan A y Cod Ansawdd. Mae'r Ganolfan yn cymryd y cyfrifoldeb am sicrhau bod holl weithdrefnau, rheolau, rheoliadau, a gofynion ynglŷn ag asesiadau a chredydau'r cyrff dyfarnu'n cael eu gweithredu, a bod trefnau mewnol ar gyfer cynnal safonau academaidd yn gadarn ac yn cyflawni Disgwyliadau'r Cod Ansawdd.

1.25 Byddai'r prosesau a'r ddogfennaeth sydd yn eu lle'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

1.26 Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad hwn drwy gwrdd â'r staff uwch a'r staff addysgu, staff cymorth proffesiynol, a'r myfyrwyr. Bu'r tîm adolygu hefyd yn archwilio dogfennau sy'n ymwneud â'r wybodaeth y mae'r Ganolfan yn ei rhoi a'r systemau mewnol sydd ganddi i sicrhau bod y safonau academaidd yn cael eu bodloni a'u cynnal.

1.27 Mae'r Ganolfan yn darparu ei rhaglenni ôl-raddedig ei hun sy'n cael eu dilysu gan Brifysgol Dwyrain Llundain a Phrifysgol John Moores Lerpwl. Mae Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd yn cynhyrchu manylebau rhaglenni, canllawiau modiwlau, a llawlyfrau myfyrwyr ar gyfer pob rhaglen. Caiff pob dogfen ei hadolygu'n gyfnodol, yn fewnol ac yn allanol: er enghraifft, yr adolygiad cynhwysfawr o fanylebau rhaglenni ôl-raddedig a wnaethpwyd gan y Ganolfan ym mis Gorffennaf 2017, a'r Adolygiad Cydweithredol a wnaethpwyd ar y cyd gan Brifysgol Dwyrain Llundain a Chanolfan y Dechnoleg Amgen ym mis Ebrill 2017.

1.28 Mae'r Ganolfan wedi datblygu system fewnol gadarn o reoli ansawdd i sicrhau bod safonau academaidd trothwy'r DU a'r cyrff dyfarnu'n cael eu bodloni. Y Pennaeth Ysgol, sef y Cofrestrydd hefyd, sy'n gyfrifol am oruchwylio'r trefnau rheoli ansawdd mewn ymgynghoriad â'r Arweinwyr Rhaglen a'r Prif Swyddog Gweithredol. Mae gan ddau gorff y cyfrifoldebau mewnol am faterion strategol a gweithredol: y Grŵp Arweinwyr Rhaglen (sy'n gyfatebol ag Uwch Dîm Rheoli) sy'n goruchwylio'r holl faterion strategol a gweithredol yn Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd, a'r Cyngor Academaidd sydd â'r cyfrifoldeb dynodedig am faterion ansawdd ac am sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau'n alinio â rheoliadau'r corff dyfarnu a disgwyliadau'r Cod Ansawdd. Ar yr ail lefel, mae Pwyllgorau Rhaglen pob rhaglen a ddilysir yn gweithredu penderfyniadau'r Cyngor Academaidd ac yn rheoli'r gweithredoedd. Mae Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr, sy'n gweithredu ym mhob rhaglen, yn sicrhau bod buddiannau'r myfyrwyr yn dal i fod yn hollbwysig yn narpariaeth academaidd Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd.

1.29 Mae'r Ganolfan yn cynhyrchu Adroddiad Ansawdd Blynyddol sy'n pennu problemau, y camau gweithredu a gymerwyd a'r cynnydd a gafwyd mewn perthynas â sicrhau bod safonau academaidd wedi'u bodloni. Ar sail y bylchau a bennwyd, mae'r uwch reolwyr, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid eraill, yn cynhyrchu cynllun gweithredu. Yn yr un modd, mae aelodau o'r staff yn datblygu ac yn monitro nifer o wahanol gynlluniau gweithredu i ymdrin

â materion yn ymwneud ag ansawdd: er enghraifft, y Cynllun Strategol, y Strategaeth Gwella, adroddiadau'r arholwyr allanol, ac Adolygiadau Monitro Blynyddol QAA. Defnyddir dadansoddiadau o'r deunyddiau hyn i gael canfyddiadau ar gyfer adroddiadau Proses Adolygu a Gwella i Brifysgol Dwyrain Llundain y mae'n rhaid i'r Ganolfan eu cwblhau bob blwyddyn ar gyfer pob rhaglen. Mae Prifysgol Dwyrain Llundain yn archwilio pob adroddiad ac yn gwneud argymhellion i'w gweithredu gan y Ganolfan. Yn ei thro, mae'r Ganolfan yn gweithredu cynllun gweithredu i sicrhau fod pob un o'r bylchau'n cael eu cau, gan felly sicrhau bod safonau academaidd trothwy'n cael eu bodloni. Newydd gychwyn mae'r bartneriaeth gyda Phrifysgol John Moores Lerpwl ond disgwylir i'r broses adrodd fod yn debyg iawn.

1.30 Mae gan y Ganolfan, mewn cydweithrediad â'i phartneriaid dyfarnu, brosesau i sicrhau bod ei systemau mewnol ar gyfer cynnal safonau academaidd trothwy'r DU ar ei rhaglenni a ddilysir yn gadarn ac yn addas. Felly, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**
**Lefel y risg: Isel**

## Disgwyliad (A3.3): Mae cyrff dyfarnu graddau'n sicrhau bod prosesau ar gyfer monitro ac adolygu rhaglenni wedi'u gweithredu sy'n ymroi'n amlwg i ganfod a yw safonau academaidd trothwy'r DU wedi'u cyflawni ac a yw'r safonau academaidd sy'n ofynnol gan y corff dyfarnu graddau unigol yn cael eu cadw.

### Cod Ansawdd, *Pennod A3: Sicrhau Safonau Academaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau*

### Y canfyddiadau

1.31 Mae'r Ganolfan yn cyflawni ei chyfrifoldebau dirprwyedig am fonitro ac adolygu rhaglenni yn unol â rheoliadau a gweithdrefnau academaidd y corff dyfarnu perthnasol. Mae'r polisi a'r gweithdrefnau wedi'u hamlinellu'n glir yn y Llawlyfr Sicrhau Ansawdd ac maent yn disgrifio'r fframwaith y gwneir y gwaith o fonitro ac adolygu rhaglenni oddi mewn iddo er mwyn sicrhau bod safonau priodol yn cael eu cynnal. Mae'r Ganolfan, mewn cydweithrediad â'i chyrff dyfarnu, yn monitro ei rhaglenni drwy brosesau o fonitro'n flynyddol ac adolygu'n gyfnodol i wirio a yw safonau trothwy'r DU yn cael eu bodloni. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol am safonau academaidd yn bwydo i mewn i'r adroddiadau blynyddol.

1.32 Canfu'r tîm adolygu bod strwythur y prosesau a'r polisïau ar gyfer monitro ac adolygu rhaglenni wedi'u llunio i wirio a yw safonau trothwy'r DU wedi'u bodloni, ac a yw safonau academaidd y cyrff dyfarnu wedi'u cynnal. Byddai'r trefniadau hyn yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

1.33 Er mwyn asesu pa mor effeithiol yw gweithdrefnau'r Ganolfan ar gyfer monitro ac adolygu, bu'r tîm adolygu'n archwilio'r Llawlyfr Sicrhau Ansawdd a dogfennau polisi cysylltiedig, cofnodion pwyllgorau, adroddiadau'r arholwyr allanol, ac adroddiadau monitro blynyddol Prifysgol Dwyrain Llundain. Cyfarfu'r tîm hefyd â'r staff a'r myfyrwyr.

1.34 Mae'r broses fonitro flynyddol yn defnyddio data ystadegol am berfformiad a chyflawniad y myfyrwyr i hysbysu unrhyw welliannau i'r rhaglen. Mae'r arholwyr allanol yn rhoi sylwadau ar briodoldeb yr asesiadau a osodwyd yn erbyn safonau trothwy'r DU yn ogystal ag ar berfformiad y myfyrwyr. Mae tiwtoriaid cyswllt y Prifysgolion yn gyfrifol am oruchwylio'r rhaglenni i sicrhau eu bod yn cael eu darparu yn unol â'r hyn a gymeradwywyd (gan ddefnyddio cofnod diffiniol y rhaglen fel y pwynt cyfeirio), ac am sicrhau bod y rhaglenni'n parhau'n academaidd gyfredol ac yn parhau i fodloni safonau trothwy'r DU a safonau academaidd y cyrff dyfarnu eu hunain.

1.35 Mae'r adroddiadau'n cadarnhau bod gan y Ganolfan fframwaith clir ar gyfer monitro ac adolygu rhaglenni sy'n bwydo i mewn i adroddiadau trosolwg blynyddol yn rhan o gylch ansawdd addysg uwch, ac yn cadarnhau ei bod yn cymryd rhan weithredol yn y broses adolygu cyfnodol.

1.36 Canfu'r tîm adolygu bod y Ganolfan, o dan oruchwyliaeth y ddwy brifysgol, yn gweithredu prosesau monitro ac adolygu sy'n effeithiol ac sy'n dangos bod safonau trothwy'r DU wedi'u bodloni a bod safonau academaidd y corff dyfarnu wedi'u cynnal. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**
**Lefel y risg: Isel**

**Disgwyliad (A3.4): Er mwyn bod yn eglur ac yn atebol i'r cyhoedd, mae cyrff dyfarnu graddau'n defnyddio arbenigedd allanol ac annibynnol ar gamau allweddol o osod a chynnal safonau academaidd i gynghori a yw:**

- **safonau academaidd trothwy'r DU wedi'u gosod, eu darparu a'u cyflawni**
- **safonau academaidd y corff dyfarnu graddau wedi'u gosod a'u cynnal yn briodol.**

**Cod Ansawdd, *Pennod A3: Sicrhau Safonau Academaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau***

## Y canfyddiadau

1.37 Yn y pendraw, y cyrff dyfarnu sy'n gyfrifol am gynnal safonau academaidd y rhaglenni y maent yn eu dilysu, ac am gwrdd â'r Disgwyliadau sydd wedi'u nodi yn Rhan A y Cod Ansawdd. Mae'r Ganolfan yn cymryd y cyfrifoldeb am sicrhau bod holl weithdrefnau, rheolau, rheoliadau, a gofynion ynglŷn ag asesiadau a chredydau'r cyrff dyfarnu'n cael eu gweithredu, a bod trefnau mewnol ar gyfer cynnal safonau academaidd yn gadarn ac yn cyflawni Disgwyliadau'r Cod Ansawdd.

1.38 Byddai'r prosesau a'r ddogfennaeth sydd yn eu lle'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

1.39 Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad hwn drwy gwrdd â'r staff uwch a'r staff addysgu, staff cymorth proffesiynol, a'r myfyrwyr. Bu'r tîm adolygu hefyd yn archwilio dogfennau sy'n ymwneud â'r wybodaeth y mae'r Ganolfan yn ei rhoi a'r systemau mewnol sydd ganddi i sicrhau bod y safonau academaidd yn cael eu bodloni a'u cynnal.

1.40 Mae'r Ganolfan yn darparu ei rhaglenni ôl-raddedig ei hun, sy'n cael eu dilysu gan Brifysgol Dwyrain Llundain a Phrifysgol John Moores Lerpwl. Mae Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd yn cynhyrchu manylebau rhaglenni, canllawiau modiwlau, a llawlyfrau myfyrwyr ar gyfer pob rhaglen. Caiff pob dogfen ei hadolygu'n gyfnodol, yn fewnol ac yn allanol: er enghraifft, yr adolygiad cynhwysfawr o fanylebau rhaglenni ôl-raddedig a wnaethpwyd gan y Ganolfan ym mis Gorffennaf 2017, a'r Adolygiad Cydweithredol a wnaethpwyd ar y cyd gan Brifysgol Dwyrain Llundain a Chanolfan y Dechnoleg Amgen ym mis Ebrill 2017.

1.41 Mae'r Ganolfan wedi datblygu system fewnol gadarn o reoli ansawdd i sicrhau bod safonau academaidd trothwy'r DU a'r cyrff dyfarnu'n cael eu bodloni. Y Pennaeth Ysgol, sef y Cofrestrydd hefyd, sy'n gyfrifol am oruchwylio'r trefnau rheoli ansawdd mewn ymgynghoriad â'r Arweinwyr Rhaglen a'r Prif Swyddog Gweithredol. Mae gan ddau gorff y cyfrifoldebau mewnol am faterion strategol a gweithredol: y Grŵp Arweinwyr Rhaglen (sy'n gyfatebol ag Uwch Dîm Rheoli) sy'n goruchwylio'r holl faterion strategol a gweithredol yn Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd, a'r Cyngor Academaidd sydd â'r cyfrifoldeb dynodedig am faterion ansawdd ac am sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau'n alinio â rheoliadau'r corff dyfarnu a disgwyliadau'r Cod Ansawdd. Ar yr ail lefel, mae Pwyllgorau Rhaglen pob rhaglen a ddilysir yn gweithredu penderfyniadau'r Cyngor Academaidd ac yn rheoli'r gweithredoedd. Mae Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr, sy'n gweithredu ymhob rhaglen, yn sicrhau bod buddiannau'r myfyrwyr yn dal i fod yn hollbwysig yn narpariaeth academaidd Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd.

1.42 Mae'r Ganolfan yn cynhyrchu Adroddiad Ansawdd Blynyddol sy'n pennu problemau, y camau gweithredu a gymerwyd a'r cynnydd a gafwyd mewn perthynas â sicrhau bod safonau academaidd wedi'u bodloni. Ar sail y bylchau a bennwyd, mae'r uwch reolwyr, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid eraill, yn cynhyrchu cynllun gweithredu. Yn yr un modd, mae aelodau o'r staff yn datblygu ac yn monitro nifer o wahanol gynlluniau gweithredu i ymdrin

â materion yn ymwneud ag ansawdd: er enghraifft, y Cynllun Strategol, y Strategaeth Gwella, adroddiadau'r arholwyr allanol, ac Adolygiadau Monitro Blynyddol QAA. Defnyddir dadansoddiadau o'r deunyddiau hyn i gael canfyddiadau ar gyfer adroddiadau Proses Adolygu a Gwella i Brifysgol Dwyrain Llundain y mae'n rhaid i'r Ganolfan eu cwblhau bob blwyddyn ar gyfer pob rhaglen. Mae Prifysgol Dwyrain Llundain yn archwilio pob adroddiad ac yn gwneud argymhellion i'w gweithredu gan y Ganolfan. Yn ei thro, mae'r Ganolfan yn gweithredu cynllun gweithredu i sicrhau fod pob un o'r bylchau'n cael eu cau, gan felly sicrhau bod safonau academaidd trothwy'n cael eu bodloni.

1.43 Mae'r Ganolfan yn rhannu'r cyfrifoldebau am ddatblygiad staff gyda'i chyrff dyfarnu. Mae'r uwch reolwyr yn sicrhau bod digon o weithgareddau datblygiad staff ar gael i bob aelod o'r staff, ac yn sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn arsylwadau gan gymheiriaid ac yn gwneud arfarniadau. Mae Prifysgol Dwyrain Llundain yn darparu cyfleoedd datblygiad staff ychwanegol, gan gynnwys hyfforddiant a chyfleoedd i gymryd rhan mewn cynadleddau cydweithredol (gwelwch hefyd Bennod B3).

1.44 Mae gan y Ganolfan, mewn cydweithrediad â'i phartneriaid dyfarnu, brosesau i sicrhau bod ei systemau mewnol ar gyfer cynnal safonau academaidd trothwy'r DU ar ei rhaglenni a ddilysir yn gadarn ac yn addas. Felly, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**
**Lefel y risg: Isel**

## Y modd y cynhelir safonau academaidd y dyfarniadau a gynigir ar ran cyrff dyfarnu graddau a/neu sefydliadau dyfarnu eraill: Crynodeb o'r canfyddiadau

1.45 Wrth benderfynu ar ei feirniadaeth am y modd y cynhelir y safonau academaidd, cyfatebodd y tîm adolygu ei ganfyddiadau â'r meini prawf a nodir yn Atodiad 2 y llawlyfr cyhoeddedig.

1.46 Mae'r Ganolfan yn dilyn gofynion ei chyrff dyfarnu'n effeithiol i gynnal safonau academaidd. Ategir y prosesau hyn gan weithdrefnau mewnol a chanllawiau'r Ganolfan ei hun. Nid oes unrhyw feysydd penodol o arfer da a dim argymhellion na chadarnhadau sy'n ymwneud â'r maes yma.

1.47 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y modd y cynhelir safonau academaidd y dyfarniadau a gynigir ar ran cyrff dyfarnu graddau yn y Ganolfan yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

# 2 Y Feirniadaeth am: Ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr

## Disgwyliad (B1): Mae darparwyr addysg uwch, wrth gyflawni eu cyfrifoldebau am osod a chynnal safonau academaidd ac am sicrhau a gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu, yn gweithredu prosesau effeithiol ar gyfer cynllunio, datblygu a chymeradwyo rhaglenni.

**Cod Ansawdd, *Pennod B1: Cynllunio, Datblygu a Chymeradwyo Rhaglenni***

### Y canfyddiadau

2.1 Mae'r Ganolfan yn rhannu'r oruchwyliaeth strategol ar brosesau cynllunio, datblygu a chymeradwyo rhaglenni ar gyfer rhaglenni ôl-raddedig y Ganolfan gyda'r cyrff dilysu, Prifysgol Dwyrain Llundain a Phrifysgol John Moores Lerpwl. Yn ôl ymagwedd strategol a chenhadaeth drefniadol y Ganolfan, mae'r Ganolfan yn cymryd yr awenau ar y gwaith o gynllunio rhaglenni oherwydd ei darpariaeth wedi'i theilwra a'i harbenigedd eang. Mae'r Ganolfan yn gweithredu o fewn gweithdrefnau ansawdd y corff dilysu ar gyfer cymeradwyo ac addasu rhaglenni a modiwlau. Byddai'r trefniadau hyn yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.2 Er mwyn asesu pa mor effeithiol yw'r arferion a'r gweithdrefnau hyn, bu'r tîm adolygu'n dadansoddi dogfennau'r Ganolfan a thystiolaeth gefnogol gysylltiedig megis dogfennaeth gymeradwyo, manylebau rhaglenni a chofnodion y Cyngor Academaidd. Cyfarfu'r tîm â chynrychiolydd Prifysgol Dwyrain Llundain, y staff uwch, y staff academaidd a'r staff cymorth ac arweinwyr y rhaglenni ym maes darpariaeth addysg uwch.

2.3 Mae'r ddogfennaeth gymeradwyo'n dangos bod y Ganolfan yn gwneud defnydd eang o gyfraniad gan randdeiliaid allanol a defnydd priodol o Ddatganiadau Meincnodi Pwnc wrth gynllunio a chymeradwyo rhaglenni. Os nad oes unrhyw Ddatganiad Meincnodi Pwnc unigol sy'n berthnasol i'r ddarpariaeth wedi'i theilwra, mae'r Ganolfan yn datblygu ei rhaglenni gan gyfeirio at ystod eang o feincnodau cysylltiedig. Mae hyn yn galluogi cynllunio a datblygu rhaglenni sy'n hyblyg ac sy'n darparu ystod eang o sgiliau ymarferol a phroffesiynol a thrylwyredd academaidd i'r myfyrwyr yn unol â chenhadaeth a gwerthoedd y Ganolfan. Mae'r broses o gymeradwyo rhaglenni'n profi a yw'r safonau wedi'u gosod ar y lefel briodol.

2.4 Mae'r Ganolfan yn gwbl gyfrifol am ddarparu modiwlau, gosod asesiadau a'u marcio am y tro cyntaf, ac am wneud adolygiadau rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau'n academaidd gyfredol ac yn broffesiynol berthnasol. Caiff agweddau megis addasiadau bychain i raglenni eu rhannu rhwng y Ganolfan a'i chyrff dyfarnu.

2.5 Mae dull y Ganolfan o gyflawni'r cyfrifoldeb hwn yn canolbwyntio ar ei phrosesau rheoli ansawdd, ac mae'r Ganolfan yn cyhoeddi'r dull hwn ar ei gwefan ac yn ei ddisgrifio yn ei Llawlyfr Sicrhau Ansawdd.

2.6 Anogir y myfyrwyr i ddatblygu eu harferion creadigol drwy gydol eu rhaglen astudio, a rhoddir cyfleoedd iddynt i ymgysylltu ag ymarferwyr sydd ar flaen y gad, ac i weithio ar brosiectau gydag amserlenni'r byd gwaith go iawn. Tanategir y rhaglenni gan sgiliau dadansoddi ac ymchwil drwy ddulliau dysgu hyblyg, a addysgir fesul prosiect, sy'n galluogi'r myfyrwyr i ddatblygu cyfres gynyddol o sgiliau yn eu dewis faes gyda sgiliau beirniadol a sgiliau hunanwerthuso'n fyfyriol i gyd-fynd â nhw. Felly, mae'r Ganolfan yn ddarparwr arbenigol, ac mae wedi sefydlu enw da yn eang am ei darpariaeth wedi'i theilwra i alluogi meithrin creadigrwydd drwy'r rhaglenni y mae'n eu cynllunio, datblygu a chymeradwyo. Mae'r Ganolfan yn annog arloesi ochr yn ochr â hybu diwylliant o welliant parhaus yn ei darpariaeth. Mae'n eglur bod y rhaglenni wedi'u llunio i adlewyrchu datblygiadau mewn arferion ac yn y maes

astudio, ac i groesawu a chynnwys technolegau newydd neu ddulliau arloesol o ddarparu ac astudio, gan gynnwys y rheiny sy'n cynnig hyblygrwydd i fyfyrwyr sy'n dilyn y rhaglen. Oherwydd hyn, canfu'r tîm adolygu bod y dulliau arloesol o gynllunio a datblygu rhaglenni hyblyg sy'n darparu ystod eang o sgiliau ymarferol a phroffesiynol a thrylwyredd academaidd i'r myfyrwyr yn unol â chenhadaeth a gwerthoedd y Ganolfan yn **arfer da**.

2.7 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**
**Lefel y risg: Isel**

## Disgwyliad (B2): Mae polisïau a gweithdrefnau ar gyfer recriwtio, dethol a derbyn yn glynu at egwyddorion mynediad teg. Maent yn eglur, dibynadwy, dilys a chynhwysol ac maent wedi'u tanategu gan strwythurau a phrosesau sefydliadol priodol. Maent yn cefnogi darparwyr addysg uwch i dethol myfyrwyr sy'n gallu cwblhau eu rhaglenni.

### Cod Ansawdd, *Pennod B2: Recriwtio, Dethol a Mynediad i Addysg Uwch*

### Y canfyddiadau

2.8 Mae'r Ganolfan yn rhannu'r cyfrifoldeb am recriwtio a derbyn myfyrwyr gyda'i phartneriaid dyfarnu. Mae polisi derbyn y Ganolfan yn amlinellu ei hymagwedd tuag at y broses recriwtio a derbyn, ac mae'n cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r gofynion ar gyfer derbyn myfyrwyr ac asesu dysgu achrededig. Gwneir ceisiadau'n uniongyrchol i'r Ganolfan; caiff cyfweliadau, portffolios o waith a gweithgareddau dethol eraill eu defnyddio i asesu addasrwydd yr ymgeiswyr. Mae'r gwaith o oruchwylio'r broses recriwtio a derbyn yn cael ei gynnal a'i seilio'n weithredol ar lefel y rhaglenni, a chedwir goruchwyliaeth ar lefel sefydliadol gan Gyngor Academaidd y Ganolfan. Mae gweithgareddau a deunyddiau marchnata yn hysbysu'r cyhoedd a darpar fyfyrwyr am ddarpariaeth addysg uwch y Ganolfan.

2.9 Byddai'r prosesau sydd yn eu lle'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.10 Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad hwn drwy gwrdd â'r staff uwch a'r staff addysgu, staff cymorth proffesiynol, a'r myfyrwyr. Bu'r tîm adolygu hefyd yn archwilio dogfennau sy'n ymwneud â phrosesau recriwtio, dethol a derbyn.

2.11 Mae'r Ganolfan yn rhannu'r cyfrifoldeb am recriwtio a derbyn myfyrwyr ar ei rhaglenni addysg uwch gyda'i phartneriaid dyfarnu. Gyrrir hyn gan flaenoriaethau strategol y Ganolfan, fel y maent wedi'u disgrifio yn ei Chynllun Strategol, ac yn ei strategaeth dysgu ac addysgu. Mae ymgeiswyr yn gwneud cais ffurfiol am raglen benodol drwy gwblhau ffurflen gais ar-lein. Mae'r Ganolfan yn asesu addasrwydd yr ymgeiswyr drwy eu cyfweld a thrwy archwilio portffolios o'u gwaith. Ar ôl derbyn ceisiadau, mae Tîm Cymorth Myfyrwyr y Ganolfan yn sicrhau bod pob ymgeisydd yn bodloni'r gofynion iaith Saesneg, a'u bod yn gymwys i astudio yn y DU, ac yn sicrhau bod ganddynt brofiad academaidd neu broffesiynol sy'n addas.

2.12 Ar gyfer y gyfres o gyrsiau'r rhaglen MSc 'Sustainability and Adaptation', mae gan y Swyddogion Cymorth Myfyrwyr yr awdurdod i gynnig lle i ymgeiswyr, ar ran yr Arweinydd Rhaglen, os yw'r ymgeisydd yn amlwg yn bodloni'r gofynion academaidd ar gyfer mynediad a gyhoeddwyd yn nogfennaeth ddilysu'r rhaglen. Os nad yw'r ymgeisydd yn bodloni'r gofynion academaidd ar gyfer y rhaglen ond y mae'n darparu tystiolaeth o ddysgu profiadol blaenorol sy'n berthnasol, bydd Swyddogion Cymorth Myfyrwyr yn ymgynghori â'r Arweinydd Rhaglen ac yn cynnig lle os byddent yn fodlon bod yr ymgeisydd yn addas.

2.13 Mae gofynion ychwanegol, o ganlyniad i'r gofynion achredu gyda'r corff proffesiynol, yn golygu bod y broses ddethol ar gyfer cofrestru ar y rhaglen Meistr mewn Pensaernïaeth: Pensaernïaeth Gynaliadwy yn fwy cymhleth. Yn yr achos hwn, gofynnir i ymgeiswyr gyflwyno portffolio o'u gwaith a mynd i gyfweliad gyda thîm y rhaglen. Gall ymgeiswyr sy'n aflwyddiannus apelio yn erbyn penderfyniadau am dderbyniadau gan ddilyn polisi a gweithdrefn y Ganolfan ar gyfer cwynion myfyrwyr.

2.14 Ar ôl cwblhau'r broses dderbyn, daw'r Tîm Cymorth Myfyrwyr yn gyfrifol am reoli'r broses o gofrestru'r myfyriwr. Mae'r Swyddogion Cymorth Myfyrwyr yn gyfrifol am gynnal cyfathrebiad â myfyrwyr newydd ac, yn y rôl yma, maent yn anfon deunyddiau rhagarweiniol atynt sy'n cynnwys llythyr croeso, calendr modiwlau, a rhestr o'r deunyddiau a argymhellir i'w darllen o flaen llaw.

2.15 Mae'r cyfrifoldeb cyffredinol am y broses recriwtio a derbyn gan Bennaeth Ysgol y Ganolfan, ar y cyd gyda'r Arweinydd Rhaglen perthnasol. Mae'r gofynion mynediad a osodwyd gan Gyngor Academaidd y Ganolfan yn cydymffurfio â chytundebau dilysu pob rhaglen. Yn weithredol, caiff hynt y broses o dderbyn myfyrwyr ei monitro yng nghyfarfodydd yr Arweinydd Rhaglen a Fforwm Rheolwyr y Ganolfan yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt o'r blaen ar gyfer pob rhaglen.

2.16 Mae'r Ganolfan yn defnyddio ei gwefan fel y prif ddull o gyfathrebu gyda'r cyhoedd a darpar fyfyrwyr. Rhaid i ddeunyddiau marchnata gael eu cymeradwyo gan y Pennaeth Ysgol cyn eu cyhoeddi i sicrhau eu bod yn gywir ac yn addas. Mae ffynonellau eraill o wybodaeth yn cynnwys prosbectws ôl-raddedig y Ganolfan, sy'n rhestru'r cyrsiau sydd ar gael i'r myfyrwyr, ynghyd â gwybodaeth ynglŷn â sut i wneud cais, y ffioedd, a'r arian sydd ar gael ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig. Mae'r Ganolfan hefyd yn cynnal diwrnodau agored gyda'r bwriad o sicrhau bod gan ddarpar fyfyrwyr yr wybodaeth y maent ei hangen i wneud penderfyniadau deallus. Mewn cyfarfodydd yn ystod yr ymweliad adolygu, clywodd y tîm fod Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd wedi penodi Swyddog Marchnata llawn amser sy'n gyfrifol am gydlynu'r holl weithgareddau marchnata a recriwtio myfyrwyr.

2.17 Mae gan y Ganolfan, mewn cydweithrediad â'i phartneriaid dyfarnu, brosesau yn eu lle ar gyfer recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr. Felly, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**
**Lefel y risg: Isel**

### Disgwyliad (B3): Mae darparwyr addysg uwch, wrth weithio gyda'u staff, eu myfyrwyr a'u rhanddeiliaid eraill, yn llunio, ac yn adolygu a gwella'n systematig, y dull o ddarparu cyfleoedd dysgu ac arferion addysgu, fel bod modd i bob myfyriwr ddatblygu fel dysgwr annibynnol, astudio eu pwnc/pynciau dewisedig yn fanwl a gwella eu gallu i feddwl yn ddadansoddol, yn feirniadol ac yn greadigol.

### Cod Ansawdd, *Pennod B3: Dysgu ac Addysgu*

### Y canfyddiadau

2.18 Mae'r Ganolfan wedi mabwysiadu ymagwedd strategol tuag at ddysgu ac addysgu, a gwella cyfleoedd dysgu i'w myfyrwyr i gyd. Ei nod yw sicrhau bod modd i bob myfyriwr ddatblygu fel dysgwr annibynnol, astudio eu pwnc/pynciau dewisedig yn fanwl a gwella eu gallu i feddwl yn ddadansoddol, yn feirniadol ac yn greadigol, ac mae ganddi systemau i fonitro'n systematig effeithiolrwydd y strategaeth dysgu ac addysgu a'r mentrau cysylltiedig y mae wedi'u cyflwyno.

2.19 Byddai'r prosesau sydd yn eu lle'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.20 Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad hwn drwy gwrdd â'r staff uwch a'r staff addysgu, staff cymorth proffesiynol a'r myfyrwyr. Bu'r tîm adolygu hefyd yn archwilio dogfennau sy'n ymwneud â dulliau a phrosesau dysgu ac addysgu.

2.21 Mae'r Ganolfan yn defnyddio dulliau hyblyg o ddysgu ac addysgu sy'n addas i fyfyrwyr o gefndiroedd amrywiol, a myfyrwyr sydd â gwahanol lefelau o brofiad academaidd a phrofiad yn y maes astudio. I ddechrau, gall myfyrwyr gofrestru i astudio ar sail llawn amser neu ran amser, a gallent fodloni gofynion eu rhaglen drwy ddysgu cyfunol neu gwblhau'r rhaglen drwy ddysgu o bell. Os yw amgylchiadau personol y myfyrwyr yn newid, bydd ganddynt yr hawl i newid eu dull astudio, ar yr amod eu bod yn dilyn trefnau cofrestru'r Ganolfan ac yn cydymffurfio â rheoliadau'r corff dyfarnu.

2.22 Mae Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd yn rhoi gwybodaeth glir a chyfredol i'r myfyrwyr am ganlyniadau dysgu'r rhaglenni ac am lefel y cymorth sydd ar gael iddynt sy'n rhoi ystyriaeth lawn i ddulliau unigol o astudio. Cynhelir sesiynau cynefino ar gyfer pob rhaglen ar ddechrau pob tymor, a dosberthir pecynnau cofrestru i'r myfyrwyr newydd i gyd. Gall pob myfyriwr ddefnyddio rhith-amgylchedd dysgu a gwefan Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd, a gallent weld llawlyfrau rhaglenni a chanllawiau modiwlau. Yn ogystal, mae gan bob myfyriwr diwtor personol, a chyflwynwyd cynllun datblygu personol i'r myfyrwyr i gyd. Ers mis Medi 2017, mae sesiynau tiwtora personol ar gael i bob myfyriwr i gynllunio eu datblygiad.

2.23 Mae Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i'w myfyrwyr i gyflawni canlyniadau dysgu'r modiwlau a'r rhaglenni. Er enghraifft, mae prosiectau a briffiau aseiniadau agored yn caniatáu hyblygrwydd i fyfyrwyr wrth ddewis ac ymdrin â phwnc. Mae trafodaethau fforwm ar-lein yn hwyluso cyfleoedd i ddysgu. Mae'r Ganolfan hefyd yn rhoi cyfleoedd i'w myfyrwyr i gyd ddysgu sgiliau ymarferol ac ehangu eu gallu i feddwl yn ddadansoddol, yn feirniadol ac yn greadigol fel dysgwyr annibynnol. Anogir y myfyrwyr i wneud prosiectau a mwynhau diddordebau personol y tu allan i'w meysydd astudio arbenigol: er enghraifft, gweithio yng nghanolfan ymwelwyr y Ganolfan, dilyn cyrsiau byr anacademaidd a chymryd rhan mewn prosiectau adeiladu ar safle'r Ganolfan. Mae'r profiad dysgu hyblyg sydd wedi'i drefnu'n dda ac yn gwella darpariaeth y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn **arfer da**.

2.24 Un o flaenoriaethau uchel y Ganolfan yw sicrhau ansawdd y darlithwyr sy'n darparu pob rhaglen. Mae'r Pennaeth Ysgol a'r Arweinwyr Rhaglen yn sicrhau bod gan y darlithwyr y cymwysterau priodol: er enghraifft, mae gan aelodau'r staff addysgu naill ai radd doethuriaeth

ac hefyd gymhwyster gan yr Academi Addysg Uwch, neu maent yn ymarferwyr sy'n hynod brofiadol yn eu maes.

2.25 Mae'r Ganolfan wedi cyflwyno strategaeth datblygiad staff i sicrhau bod y darlithwyr a'r staff cymorth yn gwybod beth yw'r datblygiadau diweddaraf yn eu meysydd pwnc arbenigol, ac i sicrhau bod y dulliau addysgu'n dal i fod yn effeithiol ac yn addas. Mae Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd hefyd yn sicrhau fod pob aelod o'r staff yn cyfranogi'n rheolaidd mewn arsylwadau gan gymheiriaid, yn gwneud gweithgareddau datblygiad staff ac yn cymryd rhan mewn arfarniadau blynyddol. Yn ogystal, disgwylir i'r darlithwyr wneud gweithgareddau ysgolheigaidd ac ymchwil. Mae'r Ganolfan hefyd yn darparu rhywfaint o arian ar gyfer gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus. Gall aelodau o'r staff astudio cyrsiau byr ddwywaith y flwyddyn yn rhad ac am ddim i ddysgu sgiliau newydd neu ddatblygu'r sgiliau ymhellach sydd ganddynt yn barod. Cânt eu hannog i gymryd rhan mewn ymarfer allanol neu ymgysylltiad academaidd y tu allan i'r Ganolfan.

2.26 Mae'r Ganolfan yn cymryd adborth gan y myfyrwyr am eu profiadau dysgu'n ddifrifol iawn. Gall pob myfyriwr fonitro ei gynnydd / ei chynnydd, ac mae cyfleoedd rheolaidd ar gael iddynt i ystyried adborth ac i drafod gyda'r staff. Yn ogystal, mae'r myfyrwyr yn rhoi adborth am y dysgu a'r addysgu, fel cynrychiolwyr myfyrwyr, mewn arolygon, yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Rhaglen, yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr ac yn y Cyngor Academaidd. Caiff crynodebau o'r prif faterion yn yr adborth a dderbyniwyd am bob modiwl eu cyhoeddi yn y Llawlyfr Modiwlau i'w dosbarthu yn ystod y tymor nesaf.

2.27 Mae'r Ganolfan yn adolygu ei harferion dysgu ac addysgu'n systematig er mwyn gwella'r cyfleoedd dysgu y mae'n eu cynnig i'w myfyrwyr i gyd. Ceir adborth o amrywiaeth o ffynonellau mewnol ac allanol. Mae'r uwch reolwyr yn cynhyrchu Adroddiad Ansawdd Blynyddol, sy'n adolygu'r ddarpariaeth academaidd yn y flwyddyn dan sylw, gan gynnwys gweithgareddau dysgu ac addysgu, ac yn cynhyrchu cynllun gweithredu i wella'r canlyniadau. Mae'r Ganolfan hefyd yn cwblhau adroddiadau blynyddol manwl fel sy'n ofynnol gan ei chyrff dyfarnu: er enghraifft, adroddiad y Broses Adolygu a Gwella fel sy'n ofynnol gan Brifysgol Dwyrain Llundain sy'n cynnwys adrannau ar y dysgu a'r addysgu. Mae'r arholwyr allanol yn rhoi adborth manwl ar y dysgu a'r addysgu ym mhob rhaglen.

2.28 Ar sail gwybodaeth a gafwyd o nifer fawr o ffynonellau, mae'r uwch reolwyr hefyd yn cynhyrchu ac yn monitro cynlluniau gweithredu manwl ac yn gwneud argymhellion ynglŷn â ffyrdd o wella sy'n cael eu trafod mewn pwyllgorau mawr: yn arbennig, y Cyngor Academaidd, cyfarfodydd yr Arweinwyr Rhaglen (sy'n gyfatebol ag Uwch Dîm Rheoli), Pwyllgorau Rheoli'r Rhaglenni a'r Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr.

2.29 Mae gan y Ganolfan strategaeth gwella, a'i nod yw sicrhau bod gwelliant 'parhaus' ar gyfer pob rhanddeiliad yn nodwedd hanfodol o ddull dysgu ac addysgu Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd. Mae ymgysylltiad cymunedol cryf sy'n hybu amgylchedd positif ac arloesol i'r rhanddeiliaid i gyd yn y broses wella strategol (gwelwch 'arfer da' yn yr adran 'Gwelliant').

2.30 Mae gan y Ganolfan, mewn cydweithrediad â'i phartneriaid dyfarnu, brosesau yn eu lle i sicrhau a gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu, mewn ffyrdd sy'n hwyluso, yn cefnogi ac yn gwella datblygiad academaidd ei myfyrwyr i gyd. Mae systemau monitro cadarn yn eu lle i sicrhau bod y dulliau dysgu ac addysgu yn dal i fod yn effeithiol ac yn addas. Felly, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**
**Lefel y risg: Isel**

## Disgwyliad (B4): Mae gan ddarparwyr addysg uwch drefniadau ac adnoddau sy'n galluogi myfyrwyr i ddatblygu eu potensial academaidd, personol a phroffesiynol ac maent yn monitro a gwerthuso'r rhain.

### Cod Ansawdd, *Pennod B4: Galluogi Datblygiad a Chyflawniad y Myfyriwr*

### Y canfyddiadau

2.31 Mae dull strategol Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd o alluogi'r myfyrwyr i ddatblygu eu potensial academaidd, personol a phroffesiynol yn cyfuno strategaeth sy'n 'ffitio'n llac', sydd wedi'i seilio mewn gwaith cynllunio gweithredol cyffredinol ac sydd wedi'i gweithredu i sicrhau'r amcanion strategol o ran Dysgu ac Addysgu a Gwella, gyda strategaeth sy'n 'ffitio'n dynnach' wedi'i theilwra i allu addasu i'r gwahanol ddulliau dysgu a'r gwahanol alluoedd ymysg y myfyrwyr ac i ddatblygu sgiliau academaidd, personol a phroffesiynol. Mae effeithiolrwydd y dull strategol hwn yn cael ei fonitro drwy adborth a geir gan y myfyrwyr, adolygiadau beirniadol a wneir gan uwch reolwyr, ac adborth a geir gan arholwyr allanol, cyrff dyfarnu a sefydliadau megis QAA.

2.32 Byddai'r prosesau sydd yn eu lle'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.33 Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad hwn drwy gwrdd â'r staff uwch a'r staff addysgu, staff cymorth proffesiynol, a'r myfyrwyr. Bu'r tîm adolygu hefyd yn archwilio dogfennau sy'n ymwneud â'r strategaethau a'r systemau sydd yn eu lle ar gyfer monitro a gwerthuso effeithiolrwydd y dulliau a'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio i alluogi myfyrwyr i ddatblygu eu potensial academaidd, personol a phroffesiynol.

2.34 Mae'r Ganolfan yn dechrau defnyddio ei dull strategol o ddatblygu potensial myfyrwyr unigol cyn eu cofrestru. Mae gwybodaeth fanwl am y rhaglenni astudio ar gael i ddarpar fyfyrwyr ar y wefan ac yn y prosbectws. Mae diwrnodau agored yn rhoi syniad mwy eglur i ymgeiswyr am yr hyn y gallent ei ddisgwyl o'r rhaglenni a gynigir. Gall darpar fyfyrwyr hefyd ddysgu am y cyfleoedd sydd ar gael drwy fynd i ddigwyddiadau gŵyl haf ac arddangosfeydd gwyrdd y Ganolfan.

2.35 Ar ôl derbyn y myfyrwyr ar eu rhaglenni, mae'r Ganolfan yn rhoi pecynnau croeso iddynt. Er enghraifft, yn unol â Pholisi Cynefino Prifysgol Dwyrain Llundain, cynhelir sesiynau cynefino i'r myfyrwyr ar ddechrau bob cyfnod cofrestru.

2.36 Mae'r Ganolfan yn ymdrechu i sicrhau bod y myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar raglenni Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd yn deall na allai unrhyw ddull dysgu unigol gwrdd ag anghenion y myfyrwyr i gyd. Felly, mae'r uwch reolwyr a'r darlithwyr yn pwysleisio pwysigrwydd defnyddio dulliau dysgu wedi'u teilwra o gychwyniad cyntaf y rhaglen. Mae'r darlithwyr yn gosod gwaith yn ystod wythnosau cyntaf pob rhaglen i asesu gwybodaeth y myfyriwr unigol a'u haddasrwydd ar gyfer cynnwys y rhaglen. Mae Cardiau Post Bywyd a thraethawd cyntaf dan y teitl 'Why CAT why me now?' yn helpu i gyflawni'r nodau hyn. Mae'r myfyrwyr sydd ag anghenion dysgu arbennig yn derbyn cymorth a hyfforddiant ychwanegol. Mae'r dull o gydnabod gallu'r myfyriwr unigol a'r adnoddau arbenigol sydd ar gael i gefnogi eu datblygiad academaidd, personol a phroffesiynol yn **arfer da**.

2.37 Mae fframwaith y Ganolfan i alluogi i'r myfyrwyr drosglwyddo a symud ymlaen yn academaidd yn llwyddiannus, ac i ddatblygu eu potensial personol a phroffesiynol, wedi'i seilio ar y berthynas agos sy'n bodoli rhwng y staff academaidd, y myfyrwyr a'r staff cymorth. Yn ystod wythnosau addysgu, mae'r uwch reolwyr yn creu awyrgylch teuluol, lle mae'r staff a'r myfyrwyr yn treulio amser gyda'i gilydd yn anffurfiol ac yn academaidd. Gall y myfyrwyr gyfarfod â'u tiwtoriaid personol o leiaf unwaith y mis, ac mae'r Arweinwyr Rhaglen yn monitro'r gweithgareddau tiwtora. Gall y myfyrwyr hefyd siarad gyda Swyddogion Cymorth Myfyrwyr.

Gall y myfyrwyr sy'n astudio oddi ar y campws siarad gyda'u tiwtoriaid personol drwy ddefnyddio Skype. Yn ogystal, o fis Medi 2017 ymlaen, bydd pob myfyriwr yn cynhyrchu cynllun datblygu personol sydd i gael ei drafod gyda'r tiwtor ddwywaith y flwyddyn. Mae ymgysylltiad cymunedol cryf sy'n hybu amgylchedd positif ac arloesol i'r rhanddeiliaid i gyd yn y broses wella strategol (gwelwch 'arfer da' yn yr adran 'Gwelliant').

2.38 Mae'r Ganolfan hefyd yn rhoi cyfleoedd i'w myfyrwyr i gyd ddatblygu'n bersonol ac yn broffesiynol. Er enghraifft, gall y myfyrwyr ddewis dod yn gynrychiolwyr myfyrwyr ar gyfer eu rhaglen benodol nhw neu ddod yn aelodau myfyrwyr ar y Cyngor Academaidd. Gallent hefyd gymryd rhan mewn cyfarfodydd rhwng y staff a'r myfyrwyr ac yng nghyfarfodydd unigol y Pwyllgorau Rhaglen a gynhelir yn rheolaidd. I ddatblygu eu sgiliau proffesiynol, gall y myfyrwyr gymryd rhan mewn amrywiaeth o brosiectau 'dysgu'n ymarferol' a gweithdai, ennill profiad drwy weithio yng nghanolfan ymwelwyr y Ganolfan, a dilyn amrywiaeth o gyrsiau byr. Yn ogystal, mae lleoliad unigryw'r Ganolfan yn darparu cyfleoedd lu i'r myfyrwyr wneud amrywiaeth eang o brosiectau i greu amgylchedd sy'n fwy cynaliadwy, gan gynnwys gwaith adeiladu a wneir ar y safle. Mae'r Ganolfan wedi ffurfio cysylltiadau cryf gydag arbenigwyr allanol dros y 40 mlynedd ers ei sefydlu, ac mae'n derbyn adborth gan gyflogwyr am y rhaglenni y mae'n eu cynnig. Mae cyfleoedd ar gael hefyd i ddysgu gan siaradwyr allanol, sydd â phrofiad proffesiynol yn y maes, mewn sesiynau anffurfiol sy'n dilyn y digwyddiadau. Mae ystod eang o weithgareddau asesu, gan gynnwys prosiectau byw lle defnyddir adnoddau pwrpasol i ymgysylltu a herio myfyrwyr (gwelwch Ddisgwyliad B6).

2.39 Mae adborth gan y myfyrwyr am eu profiadau academaidd, personol a phroffesiynol ar y rhaglenni amrywiol yn chwarae rhan allweddol mewn datblygu mentrau'r Ganolfan i gyfoethogi'r amgylchedd dysgu. Mae rhaglenni newydd, megis y rhaglen MSc 'Sustainable Food and Natural Resources', y rhaglen MSc 'Sustainability in Energy Provision and Demand Management' a'r rhaglen Meistr mewn Pensaernïaeth: Pensaernïaeth Gynaliadwy wedi ehangu'r cyfleoedd academaidd a galwedigaethol i'r myfyrwyr. Mae'r ffocws a roddwyd ar ddysgu sgiliau ymarferol drwy gael profiad wedi gwella'r cyfleoedd i ddatblygu'n bersonol ac yn broffesiynol i'r myfyrwyr i gyd, pa raglen a pha lefel bynnag y maent yn astudio arnynt.

2.40 Mae'r Ganolfan yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau dysgu ar gael i'r myfyrwyr i gyd sydd wedi'u cofrestru ar raglenni Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd. Ar ei safle, mae'r Ganolfan yn cynnal casgliad o ddeunyddiau cyfeirio mewn print i'w defnyddio gan y myfyrwyr. Trwy gydol y tymor, mae'r darlithwyr yn darparu gwybodaeth benodol i bob maes astudio ar rith-amgylchedd dysgu Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd, i'r myfyrwyr i gyd. Mae gan fyfyrwyr Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd yr un hawliau i ddefnyddio'r llyfrgell ac i fenthyca deunyddiau â myfyrwyr Prifysgol Dwyrain Llundain a Phrifysgol John Moores Lerpwl. Yn fwy na hynny, gall holl fyfyrwyr Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd sy'n astudio yn y DU ymuno â'r Gymdeithas Llyfrgelloedd Colegau, Cenedlaethol a Phrifysgolion (SCONUL), sy'n eu galluogi i ddefnyddio'r llyfrgell brifysgol agosaf. Gallent hefyd ddefnyddio'r system fenthyca rhwng llyfrgelloedd i gael gafael ar unrhyw lyfr cyhoeddedig.

2.41 Mae gan y Ganolfan brosesau a gweithdrefnau effeithiol i alluogi'r myfyrwyr i ddatblygu eu potensial academaidd, personol a phroffesiynol. Mae systemau effeithiol yn eu lle ar gyfer monitro a gwerthuso'r trefniadau a sicrhau bod digon o adnoddau ar gael. Felly, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**
**Lefel y risg: Isel**

## Disgwyliad (B5): Mae darparwyr addysg uwch yn cymryd camau pwrpasol i gynnwys yr holl fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn bartneriaid yn y broses o sicrhau a gwella eu profiad addysgol.

### Cod Ansawdd, *Pennod B5: Ymgysylltiad â'r Myfyrwyr*

### Y canfyddiadau

2.42 Mae'r Ganolfan yn ymdrechu i gynnwys ei myfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, mewn prosesau sicrhau a gwella ansawdd drwy sicrhau cynrychiolaeth myfyrwyr ar bwyllgorau'r Ganolfan a thrwy fecanweithiau adborth parhaus. Etholir cynrychiolwyr myfyrwyr o blith y myfyrwyr ar bob rhaglen ar ddechrau bob cyfnod academaidd. Gwahoddir cynrychiolwyr y myfyrwyr i fynd i gyfarfodydd y Pwyllgorau Rhaglen, Cyngor Academaidd y Ganolfan, a chyfarfodydd y Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr. Mewn ffyrdd eraill, mae'r Ganolfan yn ymdrechu i ymgysylltu â'r myfyrwyr drwy arolygon ar-lein a chyfarfodydd adborth rhwng y myfyrwyr a'r staff. Mae ymgysylltiad y myfyrwyr yn cael ei fonitro gan y Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr, y Cyngor Academaidd, a gan y myfyrwyr sydd ar bwyllgorau sicrhau ansawdd.

2.43 Byddai'r prosesau a'r ddogfennaeth sydd yn eu lle'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.44 Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad hwn drwy gwrdd â'r staff uwch a'r staff addysgu, staff cymorth proffesiynol, a'r myfyrwyr. Bu'r tîm hefyd yn archwilio dogfennau sy'n ymwneud â chyfranogaeth y myfyrwyr mewn prosesau sicrhau a gwella ansawdd, gan gynnwys cyflwyniad y myfyrwyr.

2.45 Mae'r Ganolfan yn hybu ymgysylltiad y myfyrwyr drwy arolygon myfyrwyr, cynrychiolwyr myfyrwyr, a thrwy gynnwys myfyrwyr mewn cyfarfodydd ffurfiol. Gwahoddir cynrychiolwyr y myfyrwyr i fynd i gyfarfodydd y Pwyllgorau Rhaglen, Cyngor Academaidd y Ganolfan, a chyfarfodydd y Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr. Mae Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr yn cynnwys cynrychiolwyr y myfyrwyr ac aelodau o'r staff academaidd. Nod y Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr yw ymdrin â phryderon ar lefel leol drwy ddarparu cyfrwng cyfathrebu ffurfiol rhwng y myfyrwyr a'r Ganolfan. Maent yn cyfarfod bedair gwaith yn ystod y cyfnod academaidd i ystyried unrhyw faterion sy'n ymwneud â phrofiad dysgu'r myfyrwyr.

2.46 Etholir cynrychiolwyr myfyrwyr o blith y myfyrwyr ar bob rhaglen, gyda chynrychiolaeth benodol o'r nifer fawr o fyfyrwyr y Ganolfan sy'n dysgu o bell. Er nad yw cynrychiolwyr myfyrwyr yn derbyn hyfforddiant ffurfiol, maent yn cwblhau cyflwyniad ymsefydlu anffurfiol i'w rôl yn y cyfarfod Pwyllgor Rhaglen cyntaf yr ânt iddynt. Yn ogystal, mae cynrychiolwyr myfyrwyr newydd eu hethol yn derbyn cymorth gan gynrychiolwyr mwy profiadol drwy gydol y flwyddyn academaidd. I'w hysgogi a'u gwobrwyo am ymgysylltu â phrosesau sicrhau ansawdd, mae'r Ganolfan yn rhoi cwrs byr yn rhad ac am ddim i gynrychiolwyr myfyrwyr i gydnabod yr amser y maent yn ei neilltuo ar gyfer eu rôl.

2.47 Mae arolygon myfyrwyr yn rhoi cyfle i'r Ganolfan gasglu data meintiol yn ymwneud â'r wybodaeth, yr asesu a'r addysgu ar y cyrsiau. I'r perwyl yma, mae'r Ganolfan wedi datblygu ei harolwg blynyddol ei hun ym maes addysg uwch drwy'r campws cyfan, a'i harolwg ar wahân ei hun o gyrchfannau ymadawyr. Yn ogystal, mae gwerthusiadau o fodiwlau'n rhoi cyfle i'r myfyrwyr roi adborth ar gynnwys y rhaglen a'r dulliau addysgu. Yn ystod yr ymweliad adolygu, clywodd y tîm bod y Ganolfan yn ymdrechu i weithio gyda'i myfyrwyr yn rheolaidd gan ymateb yn gyflym i adborth gan y myfyrwyr er mwyn gwella profiad y myfyrwyr. Cadarnhaodd y myfyrwyr bod y Ganolfan yn gweithredu mewn modd agored ac eglur, a'i bod yn dda iawn am ymateb i adborth gan y myfyrwyr.

2.48 Mae'r Ganolfan yn monitro effeithiolrwydd mentrau ymgysylltiad myfyrwyr drwy'r Cydbwyllgor Staff-Myfyrwyr, y Pwyllgorau Rhaglen, y Cyngor Academaidd, a myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn grwpiau sicrhau ansawdd eraill. Mae'r wybodaeth a'r adroddiadau gan yr arholwyr allanol hefyd ar gael i'r myfyrwyr ar fewnrwyd a rhith-amgylchedd dysgu'r Ganolfan. Ar y rhith-amgylchedd dysgu, gall y myfyrwyr weld llawlyfr ansawdd y Ganolfan a dogfennau eraill a ddefnyddir gan y rheiny sy'n gyfrifol am reoli ansawdd.

2.49 Mae gan y Ganolfan brosesau a gweithdrefnau effeithiol i gynnwys ei holl fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn bartneriaid yn y broses o sicrhau a gwella eu profiad addysgol. Felly, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**
**Lefel y risg: Isel**

### Disgwyliad (B6): Mae darparwyr addysg uwch yn gweithredu prosesau asesu sy'n gyfiawn, dilys a dibynadwy, yn cynnwys y rheini ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol, sy'n galluogi pob myfyriwr i arddangos i ba raddau y maent wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu a fwriedir ar gyfer y credyd neu'r cymhwyster sy'n cael ei geisio.

**Cod Ansawdd, *Pennod B6: Asesu Myfyrwyr a Chydnabod Dysgu Blaenorol***

### Y canfyddiadau

2.50 Mae dau bartner dyfarnu'r Ganolfan yn amlinellu'r trefnau asesu yn nogfennaeth y rhaglenni perthnasol. Mae gan Gyngor Academaidd y Ganolfan y cyfrifoldeb am asesu ac arholi perfformiad academaidd y myfyrwyr. Diffinnir y dull asesu ar gyfer pob modiwl yn amlinelliad y modiwl, a roddir i'r myfyrwyr ar ddechrau eu rhaglen. Mae'r partner dyfarnu perthnasol yn cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol am ei rhaglenni, ond dirprwywyd y cyfrifoldeb am osod, marcio a safoni asesiadau, ac am roi adborth arnynt, i'r Ganolfan. Caniateir achredu dysgu blaenorol ar gyfer rhaglenni a gynigir gan y Ganolfan mewn cydweithrediad â'i phartneriaid dyfarnu. Mae llawlyfr pob rhaglen yn cynnwys y broses ar gyfer achredu dysgu blaenorol sy'n dilyn gweithdrefn y brifysgol partner berthnasol.

2.51 Byddai'r prosesau a'r ddogfennaeth sydd yn eu lle'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.52 Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad hwn drwy gwrdd â'r staff uwch a'r staff addysgu, staff cymorth proffesiynol, a'r myfyrwyr. Bu'r tîm adolygu hefyd yn archwilio dogfennau sy'n ymwneud â dysgu, addysgu ac asesu.

2.53 Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth a adolygwyd yn dangos bod y trefniadau sydd ar waith yn effeithiol. Mae'r Ganolfan yn gweithredu o fewn fframweithiau asesu ei phartneriaid dyfarnu, Prifysgol Dwyrain Llundain a Phrifysgol John Moores Lerpwl. Ystyrir strategaethau asesu, trefnau marcio, a meini prawf graddio yn rhan o brosesau dilysu pob un o'r partneriaid dyfarnu. Er bod safonau academaidd y dyfarniadau ar gyfer rhaglenni'r Ganolfan yn cael eu gosod gan gyrff dyfarnu'r Ganolfan (Prifysgol Dwyrain Llundain a Phrifysgol John Moores Lerpwl), mae'r Ganolfan yn gyfrifol am osod asesiadau a chynnal safonau academaidd. Yn fewnol, mae gan Gyngor Academaidd y Ganolfan y cyfrifoldeb am asesu ac arholi perfformiad academaidd y myfyrwyr.

2.54 Mae'r llawlyfrau myfyrwyr yn cael eu cymeradwyo gan bartneriaid dyfarnu'r Ganolfan, ac maent yn amlinellu strwythur pob rhaglen, a'r strategaethau dysgu, addysgu ac asesu, ac yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r cymorth bugeiliol. Mae canlyniadau dysgu'r rhaglenni sydd wedi'u nodi yn y llawlyfrau myfyrwyr wedi'u cysylltu'n glir ag amcanion y rhaglenni ac maent wedi'u mynegi yn nhermau gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau gwybyddol, sgiliau ymarferol a sgiliau graddedigion. Mae ymrwymiad amlwg i atal achosion o gamymddwyn academaidd, ac i ymateb i unrhyw achos o'r fath, ar bob lefel yn y Ganolfan. Mae'r myfyrwyr yn derbyn gwybodaeth am lên-ladrad ac yn cael seminarau am hyn yn ystod y broses gynefino a thrwy gydol eu rhaglenni astudio. Mae'r Ganolfan yn defnyddio meddalwedd canfod llên-ladrad i ddarganfod achosion posibl o gamymddwyn academaidd sydd wedyn yn atebol i bolisi a gweithdrefn y Ganolfan ar gyfer gonestrwydd academaidd.

2.55 Mae'r polisïau, y rheoliadau a'r prosesau asesu ar gael i'r myfyrwyr cofrestredig ac i ddarpar fyfyrwyr ar y wefan, ar y rhith-amgylchedd dysgu, ac yn y llawlyfrau myfyrwyr. Mae staff y Ganolfan yn gosod yr asesiadau sy'n cael eu llunio i asesu canlyniadau dysgu'r modiwlau a'r rhaglenni. Mae gwybodaeth ar gael i'r myfyrwyr mewn briffiau asesu am y dulliau asesu, y meini prawf asesu, a'r meini prawf graddio. Yn ystod yr ymweliad adolygu, canfu'r tîm adolygu ffocws sylweddol ar brosiectau byw, yn ogystal â dulliau cynllunio arloesol a strategaethau

asesu arloesol. Roedd pob un o'r staff a'r myfyrwyr yn barod iawn i roi esiamplau ymarferol o hyn, sy'n cynnwys prosiectau ymgynghori lle caiff y gwaith ei gyflwyno i gleientiaid rhyngwladol. Mae'r ystod eang o weithgareddau asesu, gan gynnwys prosiectau byw lle defnyddir adnoddau pwrpasol i ymgysylltu a herio'r myfyrwyr yn **arfer da** (gwelwch hefyd Ddisgwyliad B4).

2.56 Mae'r Ganolfan wedi'i hymrwymo i roi adborth ar y gwaith a aseswyd yn unol â gofynion ei phartneriaid dyfarnu; naill ai o fewn 20 diwrnod gwaith ar gyfer Prifysgol Dwyrain Llundain, neu o fewn 15 diwrnod gwaith ar gyfer Prifysgol John Moores Lerpwl. Yn ystod yr ymweliad, clywodd y tîm adolygu bod y Ganolfan yn ymdrechu i ddychwelyd yr holl waith a aseswyd, beth bynnag fo'r partner dyfarnu, o fewn 15 diwrnod gwaith, er mwyn sicrhau cydraddoldeb yn y profiad dysgu. Yn ogystal, roedd y sylwadau gan y myfyrwyr ar y campws a gan y myfyrwyr dysgu o bell yn canmol yr adborth cynhwysfawr a roddwyd iddynt ar waith a aseswyd. Roedd y sylwadau gan yr arholwyr allanol yn ymwneud ag adborth ar y gwaith a aseswyd yn gyson gadarnhaol.

2.57 Er bod partneriaid dyfarnu'r Ganolfan yn cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol am eu rhaglenni, dirprwywyd y cyfrifoldeb am osod, marcio a safoni asesiadau, ac am roi adborth arnynt, i'r Ganolfan. Mae'r asesiadau'n cael eu marcio gan y staff academaidd yn unol â'r cynllun marcio sydd yng nghanllaw pob modiwl. Yna caiff pob elfen a asesir sy'n cyfrannu at ddyfarniad, ar unrhyw lefel, ei safoni gan arholwyr mewnol ac allanol. Bydd y Ganolfan yn safoni cyfran fechan o'r gwaith a aseswyd, sef naill ai 10 o'r sgriptiau neu 10 y cant o'r sgriptiau fel arfer, pa un bynnag yw'r mwyaf. Cynhelir digwyddiadau safoni blynyddol ar draws gwahanol raglenni i sicrhau bod staff academaidd yn marcio aseiniadau'n deg ac yn gyson. Mae partneriaid dyfarnu'r Ganolfan yn cynnal Byrddau Arholi (Prifysgol Dwyrain Llundain) a Byrddau Arholwyr (Prifysgol John Moores Lerpwl) i dderbyn y marciau ac i ddyfarnu'r graddau ar sail canlyniad yr asesiad.

2.58 Mae proses y Ganolfan ar gyfer achredu dysgu blaenorol wedi'i disgrifio ym mholisi derbyn y Ganolfan. Er bod y broses o achredu dysgu blaenorol yn cael ei gweinyddu gan y Ganolfan, y partner dyfarnu perthnasol sy'n penderfynu a ddylid derbyn neu wrthod cais am achredu dysgu blaenorol. Yn ystod yr ymweliad, clywodd y tîm adolygu bod y rhan fwyaf o'r ceisiadau am achredu dysgu blaenorol yn cael eu defnyddio'n bennaf gan fyfyrwyr sydd eisiau trosglwyddo rhwng rhaglenni'n fewnol. Yn yr achos hwn, bydd arweinydd y rhaglen yn rhoi cyngor i'r myfyriwr sydd wedi gwneud cais, a bydd yn cynnal ymarfer mapio i sicrhau bod y credydau'n gyfartal. Mae proses y Ganolfan ar gyfer ystyried ceisiadau am achredu dysgu blaenorol wrth dderbyn cais a chofrestru myfyriwr wedi'i nodi ym mholisi derbyn y Ganolfan.

2.59 Yn gyffredinol, mae'r Ganolfan yn gweithredu prosesau cyfiawn, dilys a dibynadwy sy'n darparu cyfleoedd priodol i'w myfyrwyr i arddangos eu bod wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu sy'n ofynnol i ddyfarnu credyd neu gymhwyster. Felly, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**
**Lefel y risg: Isel**

## Disgwyliad (B7): Mae darparwyr addysg uwch yn gwneud defnydd gofalus o arholwyr allanol.

### Cod Ansawdd, *Pennod B7: Arholi Allanol*

### Y canfyddiadau

2.60 Mae'r Ganolfan a'i chyrff dyfarnu'n rhannu'r cyfrifoldebau am sicrhau bod arholwyr allanol yn cael eu defnyddio'n hynod ofalus. Mae'r cyrff dyfarnu'n cymryd y cyfrifoldeb pennaf am gynnal safonau academaidd y rhaglenni y maent yn eu dilysu. Mae'r Ganolfan yn gyfrifol am ddefnyddio'r cyngor a roddir gan arholwyr allanol i wella ansawdd darpariaeth academaidd Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd. Mae'r Arweinwyr Rhaglen yn ymateb yn uniongyrchol i adroddiadau'r arholwyr allanol. Yn ogystal, mae Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd yn cynhyrchu adroddiadau blynyddol y Broses Adolygu a Gwella sy'n cynnwys dadansoddiadau o adroddiadau'r arholwyr allanol, gan gynnwys unrhyw argymhellion ar gyfer gwella.

2.61 Byddai'r prosesau sydd yn eu lle'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.62 Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad hwn drwy gwrdd â'r staff uwch, y staff addysgu staff cymorth proffesiynol a'r myfyrwyr. Bu'r tîm adolygu hefyd yn archwilio dogfennau sy'n ymwneud â'r ffordd y mae'r Ganolfan yn defnyddio sylwadau ac adroddiadau gan yr arholwyr allanol.

2.63 Mae'r Ganolfan yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol yr arholwyr allanol ar gyfer pob rhaglen ar ei rhith-amgylchedd dysgu, yn y ffolder 'Rheoli Ansawdd' sy'n cynnwys dogfennau allweddol pob rhaglen. Mae Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd yn sicrhau bod y myfyrwyr yn cael gwybod am adroddiadau'r arholwyr allanol. Mae'r llawlyfrau myfyrwyr yn cynnwys gwybodaeth a dynnwyd o'r adroddiadau mwyaf diweddar gan yr arholwyr allanol. Yn ogystal, ymgynghorir â'r myfyrwyr ar y canfyddiadau hyn yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Rhaglen. Gall y myfyrwyr ddarllen y prif bwyntiau o adroddiadau'r arholwyr allanol yn yr adroddiadau blynyddol y mae'r Ganolfan yn eu cyflwyno i'w chyrff dyfarnu: er enghraifft, adroddiadau Proses Adolygu a Gwella i Brifysgol Dwyrain Llundain a gynhyrchir am bob rhaglen, ac yn y cynllun gweithredu i'r Ganolfan gyfan a ddatblygwyd ar y cyd gydag Adroddiad Ansawdd Blynyddol y Ganolfan (gwelwch drafodaeth o dan A3.4).

2.64 Mae adroddiad positif 2015 yr arholwr allanol ar raglen y Ganolfan mewn 'Renewable Energy and the Built Environment' yn cadarnhau bod y Ganolfan wedi gweithredu llawer o welliannau sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf mewn ymateb i'r awgrymiadau a'r argymhellion a wnaed gan yr arholwr allanol.

2.65 Mae gan y Ganolfan, mewn cydweithrediad â'i chyrff dyfarnu, brosesau a gweithdrefnau i sicrhau bod arholwyr allanol yn cael eu defnyddio'n hynod ofalus. Felly, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**
**Lefel y risg: Isel**

## Disgwyliad (B8): Mae darparwyr addysg uwch, wrth gyflawni eu cyfrifoldebau am osod a chynnal safonau academaidd ac am sicrhau a gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu, yn gweithredu prosesau effeithiol, rheolaidd a systematig i fonitro ac adolygu rhaglenni.

### Cod Ansawdd, *Pennod B8: Monitro ac Adolygu Rhaglenni*

### Y canfyddiadau

2.66 Mae rheoliadau a gweithdrefnau'r cyrff dyfarnu'n darparu'r fframwaith ar gyfer monitro ac adolygu rhaglenni i alluogi i'r prosesau perthnasol gael eu goruchwylio'n strategol. Mae gan y Ganolfan systemau priodol i sicrhau bod y prosesau hyn yn cael eu gweithredu'n systematig ac yn gyson, fel yr amlinellwyd yn y Llawlyfr Sicrhau Ansawdd.

2.67 Byddai'r trefniadau hyn yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.68 Bu'r tîm adolygu'n craffu ar adroddiadau'r arholwyr allanol, cofnodion y Cyngor Academaidd a'r Pwyllgorau Rhaglen, ac adroddiadau monitro'r cyrff dyfarnu, a bu'n cwrdd â'r staff a'r myfyrwyr.

2.69 Mae'r Llawlyfr Sicrhau Ansawdd yn cadarnhau bod y Pennaeth Ysgol yn cadw goruchwyliaeth drosfwaol ar brosesau'r Ganolfan ar gyfer monitro ac adolygu rhaglenni. Mae gan yr Arweinwyr Rhaglen y cyfrifoldeb, ar lefel y modiwlau a lefel y rhaglenni, am sicrhau safonau uchel yn unol â safonau academaidd trothwy'r DU, ac yn unol â disgwyliadau'r cyrff achredu proffesiynol, fel sy'n berthnasol i'r rhaglen Meistr mewn Pensaernïaeth. Defnyddir yr wybodaeth a geir o'r gwaith monitro ac adolygu yma i wella cynnwys a darpariaeth y rhaglenni, a rhoddir gwybod am hyn i'r Pennaeth Ysgol mewn adroddiadau y mae cyfarfodydd y Pwyllgorau Rhaglen a phwyllgorau cysylltiedig yn eu hanfon at y Cyngor Academaidd, fel yr amlinellwyd yn y Llawlyfr Sicrhau Ansawdd.

2.70 Mae adroddiad blynyddol y Broses Adolygu a Gwella, a gynhyrchir mewn cydweithrediad â Phrifysgol Dwyrain Llundain am bob un o'r rhaglenni, yn tynnu at ei gilydd ymatebion ac adborth ar y rhaglen o'r ffurflenni Gwerthuso Modiwl ac o gofnodion tîm y rhaglen, ac yn eu hadolygu ochr yn ochr ag ystadegau ar gofrestriad, cwblhad a chynnydd i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer datblygu'r rhaglen ymhellach. Adroddiadau'r arholwyr allanol yw'r prif bwyntiau cyfeirio ar gyfer adolygiadau o'r fath. Mae'r broses o achredu'r rhaglen Diploma Proffesiynol mewn Pensaernïaeth a'r rhaglen Meistr mewn Pensaernïaeth: Pensaernïaeth Gynaliadwy gan y Bwrdd Cofrestru Penseiri'n darparu pwyntiau cyfeirio at safonau proffesiynol.

2.71 Mae'r adroddiadau'n cadarnhau bod y Ganolfan yn bodloni'r gofynion am fonitro ac adolygu drwy ddefnyddio dull cyson a systematig o weithredu'r broses adolygu yn unol â rheoliadau'r cyrff dyfarnu. Roedd trafodaethau gyda'r staff a'r myfyrwyr yn dangos bod y Ganolfan yn rheoli'r ddarpariaeth yn briodol ac yn bodloni'r gofynion, a bod ganddi system ar gyfer gwneud addasiadau bychain i fodiwlau a rhaglenni.

2.72 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Ganolfan yn bodloni gofynion pob un o'i chyrff dyfarnu yn ei gwaith o fonitro ac adolygu rhaglenni, a bod y Disgwyliad wedi'i gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**
**Lefel y risg: Isel**

## Disgwyliad (B9): Mae gan ddarparwyr addysg uwch weithdrefnau i ymdrin ag apeliadau academaidd a chwynion myfyrwyr am ansawdd y cyfleoedd dysgu; mae'r gweithdrefnau hyn yn deg, yn hygyrch ac yn amserol, ac yn galluogi gwelliant.

### Cod Ansawdd, *Pennod B9: Apeliadau Academaidd a Chwynion Myfyrwyr*

### Y canfyddiadau

2.73 Mae gan y Ganolfan broses sefydledig ar gyfer cwynion myfyrwyr y gall ei myfyrwyr ei defnyddio i gyflwyno cwynion am faterion anacademaidd yn uniongyrchol i'r Ganolfan. Gall achwynwyr apelio at y partner dyfarnu perthnasol neu, am fod y Ganolfan yn aelod o gynllun addysg uwch Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, gall ei myfyrwyr ofyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol adolygu eu cŵyn yn allanol, ar ôl i'r prosesau mewnol gael eu cwblhau. Polisi cwynion y Ganolfan sy'n ymdrin ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau ar dderbyniadau. Mae partneriaid dyfarnu'r Ganolfan yn cadw'r cyfrifoldeb am apeliadau academaidd. Gall y myfyrwyr gael help gan Dîm Cymorth Myfyrwyr y Ganolfan i gyflwyno naill ai gŵyn myfyriwr neu apêl academaidd.

2.74 Byddai'r prosesau sydd yn eu lle'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.75 Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad hwn drwy gwrdd â'r staff uwch a'r staff addysgu, y myfyrwyr, a chynrychiolwyr y myfyrwyr. Bu'r tîm hefyd yn archwilio dogfennau sy'n ymwneud â chwynion myfyrwyr ac apeliadau academaidd yng nghyd-destun fframwaith academaidd y partner dyfarnu perthnasol.

2.76 Mae gan y Ganolfan broses sefydledig ar gyfer datrys cwynion myfyrwyr am faterion anacademaidd. Mae'r broses y gall myfyrwyr ei defnyddio i gyflwyno cwynion am faterion anacademaidd wedi'i disgrifio ym mholisi cwynion y Ganolfan. Polisi cwynion y Ganolfan sy'n ymdrin ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau ar dderbyniadau. Mae'r broses gwyno ffurfiol wedi'i rhannu'n bedwar cam amlwg - datrys yn gynnar, cymodi'n ffurfiol, adolygu'n ffurfiol gan yr Uwch Dîm Rheoli, a chynnal panel adolygu cwynion.

2.77 Anogir y myfyrwyr i ddatrys eu cwyn o fewn 10 diwrnod gwaith drwy sianelau anffurfiol, er enghraifft, drwy gynrychiolwyr myfyrwyr, cyn cyflwyno cŵyn ffurfiol. Pan fo'r achwynwyr wedi bod trwy'r broses gwyno fewnol gyflawn, gallent gyflwyno apêl naill ai i'r partner dyfarnu perthnasol neu i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

2.78 Mae gan fyfyrwyr, sy'n credu bod eu gwaith heb gael ei farcio'n deg, yn gyson, neu yn unol â'r safonau a'r lefel fel sy'n ofynnol gan y corff dyfarnu, yr hawl i apelio yn erbyn y broses a ddefnyddiwyd i bennu'r marc neu'r canlyniad terfynol. Yn wahanol i gwynion myfyrwyr, partneriaid dyfarnu'r Ganolfan sy'n derbyn ac yn penderfynu ar apeliadau academaidd, mewn cydweithrediad â rheolwyr y Ganolfan ac arweinwyr y rhaglenni.

2.79 Mae'r myfyrwyr yn dilyn proses gynefino'r Ganolfan sy'n amlinellu ei dulliau dysgu ac addysgu ac yn rhoi gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud â'i threfnau cymorth myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys cyflwyniad i bolisïau a gweithdrefnau'r Ganolfan, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud ag apeliadau academaidd a chwynion myfyrwyr (drwy bartneriaid dyfarnu'r Ganolfan). Mae'r myfyrwyr yn cael tiwtoriaid personol, sef unigolion enwebedig y gall y myfyrwyr droi atynt i gael cymorth, yn ogystal â swyddogion cymorth myfyrwyr y Ganolfan.

2.80 Mae'r Ganolfan yn monitro apeliadau academaidd a chwynion myfyrwyr drwy amrywiol fecanweithiau, yn bennaf drwy'r Cyngor Academaidd. Mae'r Pennaeth Ysgol yn gyfrifol am roi adroddiad blynyddol i'r Cyngor Academaidd am y cwynion ffurfiol a dderbyniwyd, yn ogystal ag adrodd am gwynion i bartneriaid dyfarnu'r Ganolfan gan ddefnyddio eu prosesau monitro

blynyddol. Yn ystod yr ymweliad adolygu, clywodd y tîm ei bod hi wedi bod yn anodd canfod themâu oherwydd y nifer fechan o gwynion a dderbyniwyd. Yn ogystal, mae Uwch Dîm Rheoli'r Ganolfan yn ystyried ac yn trafod yr adroddiad blynyddol a dderbynnir gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol am y cwynion a dderbyniwyd a'u canlyniadau.

2.81 Mae gan y Ganolfan, mewn cydweithrediad â'i phartneriaid dyfarnu, weithdrefnau effeithiol i ymdrin ag apeliadau academaidd a chwynion myfyrwyr. Felly, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**
**Lefel y risg: Isel**

**Disgwyliad (B10): Mae cyrff dyfarnu graddau'n cymryd y cyfrifoldeb pennaf am safonau academaidd ac am ansawdd y cyfleoedd dysgu, lle bynnag y cânt eu darparu neu pwy bynnag sy'n eu darparu. Mae trefniadau ar gyfer darparu cyfleoedd dysgu gyda sefydliadau heblaw'r corff dyfarnu graddau wedi'u gweithredu'n gadarn a'u rheoli'n effeithiol.**

**Cod Ansawdd, *Pennod B10: Rheoli Darpariaeth Addysg Uwch gydag Eraill***

**Y canfyddiadau**

2.82 Nid yw'r Ganolfan yn cydweithredu gydag unrhyw un arall heblaw ei chyrff dyfarnu, felly nid yw'r Disgwyliad hwn yn berthnasol.

**Y Disgwyliad: Nid yw'n berthnasol**
**Lefel y risg: Nid yw'n berthnasol**

**Disgwyliad (B11): Dyfernir graddau ymchwil mewn amgylchedd ymchwil sy'n darparu safonau academaidd cadarn i wneud gwaith ymchwil a dysgu am agweddau, dulliau, trefnau a phrotocolau ymchwilio. Mae'r amgylchedd hwn yn cynnig y cyfleoedd a'r gefnogaeth o safon uchel i fyfyrwyr y maent eu hangen i sicrhau canlyniadau academaidd, personol a phroffesiynol llwyddiannus yn eu graddau ymchwil.**

**Cod Ansawdd, *Pennod B11: Graddau Ymchwil***

**Y canfyddiadau**

2.83 Nid yw'r Ganolfan yn cynnig unrhyw raddau ymchwil, felly nid yw'r Disgwyliad hwn yn berthnasol.

**Y Disgwyliad: Nid yw'n berthnasol**
**Lefel y risg: Nid yw'n berthnasol**

## Ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr: Crynodeb o'r canfyddiadau

2.84 Wrth benderfynu ar ei feirniadaeth am ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr, cyfatebodd y tîm adolygu ei ganfyddiadau â'r meini prawf a nodir yn Atodiad 2 y llawlyfr cyhoeddedig.

2.85 Mae pedair nodwedd o arfer da yn y maes yma sy'n ymwneud â'r rhaglenni arloesol, y profiad dysgu hyblyg sydd wedi'i drefnu'n dda, eu dull o ganfod a chydnabod anghenion y myfyriwr unigol, a'r adnoddau arbenigol a'r amrywiaeth eang o ddulliau asesu sydd ar gael.

2.86 Ni chanfu'r tîm unrhyw feysydd i'w cadarnhau'n benodol ac ni wnaed unrhyw argymhellion yn y maes yma.

2.87 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn y Ganolfan yn haeddu **canmoliaeth**.

# 3 Y Feirniadaeth am: Ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu

## Disgwyliad (C): Mae darparwyr addysg uwch y DU yn cynhyrchu gwybodaeth i'w cynulleidfaoedd targed am yr addysg uwch y maent yn ei chynnig sy'n addas, yn hygyrch ac yn ddibynadwy.

**Cod Ansawdd, *Rhan C: Gwybodaeth am Ddarpariaeth Addysg Uwch***

### Y canfyddiadau

3.1 Mae gan y Ganolfan brosesau sefydledig i sicrhau bod yr wybodaeth y maent yn ei chynhyrchu'n addas, yn hygyrch ac yn ddibynadwy. Rhith-amgylchedd dysgu a gwefan y Ganolfan yw'r ddwy brif sianel a ddefnyddir gan y Ganolfan i gyfathrebu gyda'i darpar fyfyrwyr, aelodau o'r cyhoedd, ei myfyrwyr cyfredol, a'i staff. Mae'r Ganolfan yn defnyddio copïau caled a'r cyfryngau digidol i hysbysu myfyrwyr cyfredol a darpar fyfyrwyr am y ddarpariaeth addysg uwch unigryw y mae'r Ganolfan yn ei chynnig. Yn ogystal, mae'r Ganolfan yn gweithio'n agos â'i phartneriaid dyfarnu i sicrhau bod yr wybodaeth y maent yn ei chyhoeddi yn gywir ac yn briodol.

3.2 Byddai'r prosesau sydd yn eu lle'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

3.3 Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad hwn drwy gwrdd â'r staff uwch, yr Arweinwyr Rhaglen, y myfyrwyr, a'r staff cymorth proffesiynol. Bu'r tîm hefyd yn archwilio dogfennau sy'n ymwneud â chyhoeddi a rheoli gwybodaeth gyhoeddedig i'r myfyrwyr, y staff, y rheiny sy'n cymryd rhan mewn rheoli prosesau ansawdd, a'r cyhoedd.

3.4 Mae gan y Ganolfan brosesau sefydledig i gynhyrchu a chyhoeddi gwybodaeth yn ymwneud â'i darpariaeth addysg uwch. Cynhyrchir yr wybodaeth sy'n ymwneud â darpariaeth academaidd y Ganolfan, gan gynnwys disgrifiadau o fodiwlau a manylebau rhaglenni, gan y tîm rhaglen perthnasol mewn cydweithrediad â'r partner dyfarnu perthnasol, gyda chymeradwyaeth derfynol Cyngor Academaidd y Ganolfan a'r Pennaeth Ysgol. Fel arall, cynhyrchir gwybodaeth farchnata gan dîm marchnata'r Ganolfan ac yn arbennig gan y Swyddog Marchnata sydd newydd ei benodi yn Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd, gyda chymeradwyaeth derfynol y Pennaeth Ysgol. Yn ystod yr ymweliad, clywodd y tîm adolygu fod y Ganolfan wedi cyflwyno proses archwilio fewnol yn ddiweddar i sicrhau bod y deunyddiau cyhoeddedig yn dal i fod yn briodol.

3.5 Mae gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr a'r cyhoedd, megis Cynllun Strategol newydd y Ganolfan, ar gael ar wefan y Ganolfan yn y lle cyntaf. Mae gan y Ganolfan hefyd siarter y myfyrwyr sy'n nodi'r hyn y mae'r Ganolfan yn ei ddisgwyl gan ei myfyrwyr cyfredol a'r hyn y gallent ei ddisgwyl gan y Ganolfan; rhoddir y siarter iddynt yn ystod y broses gynefino ac mae hefyd ar gael ar wefan y Ganolfan. Mae ffynonellau eraill o wybodaeth yn cynnwys prosbectws ôl-raddedig y Ganolfan, sy'n rhestru'r cyrsiau sydd ar gael i'r myfyrwyr, ynghyd â gwybodaeth ynglŷn â sut i wneud cais, y ffioedd, a'r arian sydd ar gael ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig. Mae'r Ganolfan hefyd yn cynnal diwrnodau agored gyda'r bwriad o sicrhau bod gan ddarpar fyfyrwyr yr wybodaeth y maent ei hangen i wneud penderfyniadau deallus.

3.6 Mae gofyn i ymgeiswyr gwblhau ffurflen gais ar-lein sy'n casglu eu manylion personol, eu cymwysterau, a'u profiad perthnasol. Cyn eu cofrestru, anfonir 'Pecyn Croeso' at ddarpar fyfyrwyr sy'n cynnwys calendr addysgu, trosolwg o'r asesiadau, a'r canlyniadau dysgu ar gyfer y sesiwn academaidd sy'n dod, ynghyd â rhestrau o'r deunyddiau a argymhellir i'w darllen o flaen llaw. Ar ôl eu cofrestru, mae'r myfyrwyr yn dilyn proses gynefino. Mae hon yn cynnwys

cyflwyniad i'r safle ac i gyfleusterau academaidd a chyfleusterau cymorth myfyrwyr y Ganolfan, a throsolwg o bolisïau'r Ganolfan.

3.7 Mae pob myfyriwr yn derbyn llawlyfr myfyrwyr gan y Ganolfan yn benodol i'w cwrs sy'n cynnwys manylion llawn eu rhaglen astudio. Mae'r llawlyfrau myfyrwyr yn amlinellu strwythur pob rhaglen, a'r strategaethau dysgu, addysgu ac asesu, ac yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r cymorth bugeiliol. Gall y myfyrwyr ofyn i'r Ganolfan am lythyrau statws myfyriwr neu drawsgrifiadau ar ôl cwblhau eu hastudiaethau.

3.8 Rhith-amgylchedd dysgu'r Ganolfan yw'r brif ystorfa ar gyfer deunyddiau dysgu ac addysgu. Fel arfer, mae'r Ganolfan yn recordio pob gweithgaredd dysgu, gan gynnwys darlithoedd a seminarau, ac yn llwytho'r recordiadau hynny i rith-amgylchedd dysgu'r Ganolfan sy'n caniatáu i'r myfyrwyr dysgu o bell ddefnyddio'r un deunyddiau dysgu â'r myfyrwyr ar y campws. Er bod rhai o'r myfyrwyr wedi wynebu problemau'n ymwneud â rhaglenni nad oeddent yn gyfatebol, clywodd y tîm adolygu sylwadau hynod bositif am y defnydd o dechnoleg a wneir gan y Ganolfan i ddarparu'r dysgu a'r addysgu. Yn ogystal, mae'r Ganolfan yn llwytho ei llawlyfr sicrhau ansawdd a phapurau ei phwyllgorau i adran neilltuedig ar y rhith-amgylchedd dysgu sydd ar gael i'r myfyrwyr a'r staff. Mae adroddiadau o weithgareddau adolygu rhaglenni'r Ganolfan yn cael eu llwytho hefyd i'r rhith-amgylchedd dysgu.

3.9 Yn gyffredinol, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Ganolfan yn cynhyrchu gwybodaeth sy'n addas, yn hygyrch ac yn ddibynadwy. Felly, mae'r Disgwyliad yn cael ei gyflawni, ac mae lefel y risg cysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**
**Lefel y risg: Isel**

## Ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu: Crynodeb o'r canfyddiadau

3.10 Wrth benderfynu ar ei feirniadaeth am ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu, cyfatebodd y tîm adolygu ei ganfyddiadau â'r meini prawf a nodir yn Atodiad 2 y llawlyfr cyhoeddedig.

3.11 Mae gan y Ganolfan brosesau sydd wedi'u sefydlu'n dda i sicrhau bod yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu'n addas, yn hygyrch ac yn ddibynadwy.

3.12 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu yn y Ganolfan yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

# 4 Y Feirniadaeth am: Y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr

### Disgwyliad (Gwelliant): Cymerir camau pwrpasol ar lefel y darparwr i wella ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr.

### Y canfyddiadau

4.1 Mae'r Ganolfan wedi datblygu Strategaeth Gwella sy'n canolbwyntio ar gyflawni 10 amcan sydd wedi'u llunio fel gyrwyr strategol. Pob blwyddyn, mae'r uwch reolwyr yn cynhyrchu Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Gwelliant sy'n pennu camau gweithredu i gyflawni pob amcan. Tanategir yr amcanion gan seilwaith academaidd sy'n galluogi'r Ganolfan i weithredu strwythur pwyllgorau syml ond cadarn sydd â'r gallu i werthuso effeithiolrwydd mentrau dysgu ac addysgu a gweithgareddau datblygu. Mae mentrau gwella wedi'u hintegreiddio mewn ffordd systematig a threfnus, ar sail materion a thrafodaethau a nodwyd yn yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol a'i Gynllun Gweithredu atodol.

4.2 Byddai'r prosesau sydd yn eu lle'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

4.3 Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad hwn drwy gwrdd â'r staff uwch a'r staff addysgu, staff cymorth proffesiynol a'r myfyrwyr. Bu'r tîm adolygu hefyd yn archwilio dogfennau sy'n ymwneud â'r modd y sicrheir gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr.

4.4 Mae gan y Cyngor Academaidd y cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau gwelliant, ond mae'r Pwyllgorau Rhaglen yn gyfrifol am weithredu ei benderfyniadau. Mae Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr, sy'n cyfarfod unwaith y mis yn ystod y cyfnod addysgu, yn darparu cyfleoedd ychwanegol i drafod agweddau ymarferol y mentrau gwella.

4.5 Mae'r myfyrwyr yn cymryd rhan weithredol fel partneriaid mewn prosiectau gwella, ac mae nifer o'r mentrau gwella wedi'u cyflwyno fel arferion da mewn ymateb i adborth gan y myfyrwyr. Er enghraifft, o ganlyniad uniongyrchol i adborth gan y myfyrwyr, cafodd cyfnod darparu'r modiwl craidd o 30 credyd yn y gyfres rhaglenni MSc 'Sustainability and Adaptation' ei ymestyn i ddau dymor i ganiatáu mwy o amser i'r myfyrwyr gwblhau'r gwaith i safon dda. Fel y nodwyd o dan Ddisgwyliad B1, mae arferion da yno mewn perthynas â'r dulliau arloesol o gynllunio a datblygu rhaglenni hyblyg sy'n darparu ystod eang o sgiliau ymarferol a phroffesiynol a thrylwyredd academaidd i'r myfyrwyr yn unol â chenhadaeth a gwerthoedd y Ganolfan.

4.6 Mae ymrwymiad y Ganolfan i wella'r cyfleoedd i'w myfyrwyr ddatblygu eu potensial academaidd, personol a phroffesiynol wedi'i blethu'n dynn i mewn i ffabrig ei dogfennau hunanwerthusiad (cynhyrchir pob un ohonynt ar wahân). Fel y nodwyd o'r blaen, mae tiwtoriaid personol a chynlluniau datblygu personol ar gael i bob myfyriwr, yn ogystal â chyfleoedd i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r staff yn rhan o deulu'r Ganolfan, cyfleoedd i wneud amrywiaeth o brosiectau academaidd ac ymarferol a'r amser i wneud hynny, cyfleoedd i ymgysylltu'n uniongyrchol ag arbenigwyr allanol, cyflogwyr a siaradwyr gwadd, a chyfleoedd i ddylanwadu'n uniongyrchol ar gynlluniau'r Ganolfan ar gyfer datblygu modiwlau a rhaglenni drwy gynrychiolaeth uniongyrchol mewn pwyllgorau mawr. Mae'r ymgysylltiad cymunedol cryf sy'n hybu amgylchedd positif ac arloesol i'r rhanddeiliaid i gyd yn y broses wella strategol yn **arfer da**.

4.7 Mae'r Ganolfan wedi mabwysiadu dull strategol o sicrhau gwelliant ac mae ganddi brosesau sydd wedi'u diffinio'n fanwl ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd ei mentrau gwella. Felly, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**
**Lefel y risg: Isel**

## Y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr: Crynodeb o'r canfyddiadau

4.8 Wrth benderfynu ar ei feirniadaeth am y modd y sicrheir gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr, cyfatebodd y tîm adolygu ei ganfyddiadau â'r meini prawf a nodir yn Atodiad 2 y llawlyfr cyhoeddedig.

4.9 Mae un nodwedd o arfer da yn y maes yma. Mae gan y Ganolfan strategaeth gwella glir a seilwaith sy'n ategu'r broses wella ar bob lefel. Mae'r broses wedi'i phlethu i mewn i bob dogfen ac ymdrinnir â hi ymhob cyfarfod. Gwneir defnydd llawn o adborth gan y myfyrwyr, adroddiadau'r arholwyr allanol ac arbenigedd allanol.

4.10 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y ffordd y mae'r Ganolfan yn sicrhau gwelliant yn haeddu **canmoliaeth**.

# Rhestr termau

Mae'r rhestr termau hon yn ganllaw cyfeirio cyflym i dermau yn yr adroddiad hwn sydd efallai'n anghyfarwydd i rai darllenwyr. Hefyd, rhoddir diffiniadau o dermau gweithredol allweddol ar dudalennau 21 i 24 y llawlyfr Adolygiad Addysg Uwch (Darparwyr Amgen).

Os byddwch eisiau diffiniadau gweithredol ffurfiol o dermau eraill, gwelwch yr adran ar sicrhau safonau ac ansawdd: www.qaa.ac.uk/assuring-standards-and-quality.

Gallwch weld esboniadau hawdd eu defnyddio o amrediad eang o dermau yn y **Rhestr termau** hirach ar wefan QAA: www.qaa.ac.uk/Pages/GlossaryCY.aspx.

**Arfer da**
Proses neu ffordd o weithio sydd, ym marn tîm adolygu QAA, yn gwneud cyfraniad arbennig o bositif i reolaeth darparwr addysg uwch ar safonau academaidd ac ansawdd ei ddarpariaeth addysgol. Caiff ei ddefnyddio fel term technegol ym mhrosesau adolygu QAA.

**Canlyniadau dysgu**
Yr hyn y disgwylir i ddysgwr ei wybod, ei ddeall a/neu allu ei ddangos ar ôl cwblhau proses o ddysgu.

**Corff dyfarnu**
Corff sydd wedi'i awdurdodi i ddyfarnu cymhwyster penodol; corff a gydnabyddir gan Ofqual i ddyfarnu cymwysterau wedi'u rheoleiddio gan Ofqual.

**Corff dyfarnu graddau**
Darparwr addysg uwch y DU (prifysgol fel arfer) sydd â'r pŵer i ddyfarnu graddau, ac mae'r pwerau yma wedi'u cyflwyno drwy Siarter Frenhinol, neu dan Adran 76 y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, neu o dan Adran 48 y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Yr Alban) 1992, neu drwy Fwla Pabaidd, neu, ers 1999, drwy ddyfarniad y Cyfrin Gyngor ar gyngor QAA (mewn ymateb i geisiadau am bwerau dyfarnu graddau a addysgir, pwerau dyfarnu graddau ymchwil neu deitl prifysgol).

**Credyd(au)**
Ffordd o fesur a chydnabod dysgu, a ddefnyddir gan y mwyafrif o sefydliadau sy'n darparu **rhaglenni astudio** addysg uwch, wedi'i fynegi fel nifer o gredydau ar lefel benodol.

**Cyfleoedd dysgu**
Y ddarpariaeth a wneir ar gyfer dysgu myfyrwyr, gan gynnwys astudiaeth a gynlluniwyd, addysgu, asesiad, cymorth academaidd a phersonol, ac adnoddau (megis llyfrgelloedd a systemau gwybodaeth, labordai neu stiwdios).

**Datganiad Meincnodi Pwnc**
Datganiad a gyhoeddwyd sy'n nodi pa wybodaeth, dealltwriaeth, galluoedd a sgiliau a ddisgwylir gan y rheiny sy'n graddio ymhob un o'r prif feysydd astudio (yn ymwneud gan fwyaf â graddau baglor), ac sy'n esbonio beth sy'n rhoi ei gydlyniad a'i hunaniaeth i'r ddisgyblaeth arbennig honno.

**Diffiniad gweithredol**
Diffiniad ffurfiol o derm, sy'n sefydlu yn union beth mae QAA yn ei olygu wrth ei ddefnyddio mewn adolygiadau ac adroddiadau.

**Disgwyliadau**
Datganiadau yn y **Cod Ansawdd** sy'n nodi beth mae holl ddarparwyr addysg uwch y DU yn ei ddisgwyl ganddynt eu hunain ac felly gan ei gilydd, a'r hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl ganddynt.

**Dogfen hunanwerthusiad**
Adroddiad a gyflwynir gan ddarparwr addysg uwch, yn asesu ei berfformiad ei hun, i'w ddefnyddio fel tystiolaeth mewn adolygiad gan QAA.

**Dyfarniad dwbl neu ddyfarniad deuol**
Rhoi dyfarniadau (a thystysgrifau) ar wahân ar gyfer yr un **rhaglen** gan ddau **gorff dyfarnu graddau** sydd wedi darparu'r rhaglen astudio sy'n arwain atynt ar y cyd. Gweler hefyd **dyfarniad lluosog**.

**Dyfarniad**
Cymhwyster, neu gredyd academaidd, wedi'i gyflwyno i gydnabod yn ffurfiol bod myfyriwr wedi cyflawni'r **canlyniadau dysgu** a fwriedir a phasio'r asesiadau sy'n ofynnol i gwrdd â'r safonau academaidd a osodir ar gyfer **rhaglen** neu uned astudio.

**Dyfarniadau lluosog**
Trefniant lle mae tri **chorff dyfarnu graddau** neu fwy yn darparu, gyda'i gilydd, un **rhaglen** (neu raglenni) a ddarperir ar y cyd sy'n arwain at **ddyfarniad** ar wahân (a thystysgrif ar wahân) gan bob un o'r cyrff dyfarnu. Mae'r trefniant yr un fath ag ydyw ar gyfer **dyfarniadau dwbl/deuol**, ond gyda thri chorff dyfarnu neu fwy'n cymryd rhan.

**Dysgu cyfunol**
Dysgu a ddarperir drwy nifer o wahanol ddulliau, sydd fel arfer yn cynnwys dysgu wyneb yn wyneb ac e-ddysgu (gweler **dysgu gyda chymorth technoleg**).

**Dysgu gyda chymorth technoleg** (neu **e-ddysgu**)
Dysgu a ddarperir neu a gefnogir drwy ddefnyddio technoleg.

**Dysgu hyblyg a dosranedig**
Rhaglen neu fodiwl nad yw'n gofyn i'r myfyriwr fynychu dosbarthiadau neu ddigwyddiadau ar amseroedd ac mewn lleoliadau penodol. Gweler hefyd **dysgu o bell**.

**Dysgu o bell**
Cwrs astudio nad yw'n cynnwys cysylltiad wyneb yn wyneb rhwng myfyrwyr a thiwtoriaid ond, yn lle hynny, mae'n defnyddio technoleg megis y rhyngrwyd, mewnrwydi, cyfryngau darlledu, CD-ROM a fideo, neu ddulliau traddodiadol o ohebu - dysgu 'o bell'. Gweler hefyd **dysgu cyfunol**.

**e-ddysgu**
Gweler **dysgu gyda chymorth technoleg**.

**Ehangu cyfranogaeth**
Cynyddu cyfranogaeth pobl o amrediad ehangach o gefndiroedd mewn addysg uwch.

**Fframwaith cymwysterau addysg uwch**
Strwythur ffurfiol cyhoeddedig sy'n pennu hierarchaeth lefelau cymwysterau cenedlaethol ac yn disgrifio'r cyflawniad cyffredinol a ddisgwylir gan ddalwyr y prif fathau o gymhwyster ar bob lefel, a thrwy hynny helpu darparwyr addysg uwch i gynnal safonau academaidd. Mae QAA yn cyhoeddi'r fframweithiau dilynol: *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) a'r *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Sefydliadau Addysg Uwch yn yr Alban* (FQHEIS).

**Fframwaith**
Strwythur ffurfiol cyhoeddedig. Gweler hefyd **fframwaith cymwysterau addysg uwch**.

**Gwelliant**
Y broses y mae darparwyr addysg uwch yn ei defnyddio i wella ansawdd y ddarpariaeth yn systematig a'r ffyrdd y mae addysg myfyrwyr yn cael ei chefnogi. Caiff ei ddefnyddio fel term technegol yn ein prosesau adolygu.

**Manylebau rhaglen**
Datganiadau wedi'u cyhoeddi am y **canlyniadau dysgu** y bwriedir eu sicrhau o'r rhaglenni astudio, yn cynnwys gwybodaeth am ddulliau dysgu ac addysgu, dulliau cymorth ac asesu, a sut mae unedau unigol yn berthnasol i lefelau cyflawniad.

**Pwyntiau cyfeirio**
Datganiadau a chyhoeddiadau eraill sy'n sefydlu meini prawf y gellir mesur perfformiad yn eu herbyn.

**Rhaglen (astudio)**
Cwrs astudio cymeradwy sy'n darparu profiad dysgu cydlynol ac sydd fel arfer yn arwain at gymhwyster.

**Rhith-amgylchedd dysgu** (RhAD)
Mewnrwyd neu wefan ryngweithiol sydd wedi'i diogelu gan gyfrinair (cyfeirir at hwn hefyd fel platfform neu ryngwyneb defnyddiwr) sy'n rhoi mynediad yn electronig i **gyfleoedd dysgu**. Gallai'r rhain gynnwys adnoddau megis llawlyfrau cwrs, gwybodaeth a rhestrau darllen; blogiau, byrddau neges a fforymau; darlithoedd wedi'u recordio; a/neu gyfleusterau ar gyfer seminarau ar-lein (gweminarau).

**Safon academaidd trothwy**
Y lefel isaf o gyflawniad sy'n dderbyniol y mae'n rhaid i fyfyriwr ei dangos er mwyn bod yn gymwys i dderbyn **dyfarniad** academaidd. Mae safonau academaidd trothwy wedi'u disgrifio yn y **fframweithiau** cenedlaethol a'r **Datganiadau Meincnodi Pwnc**.

**Safonau academaidd**
Y safonau a osodir gan **gyrff dyfarnu graddau** ar gyfer eu cyrsiau (rhaglenni a modiwlau) a'r safonau a ddisgwylir ar gyfer eu dyfarniadau. Gweler hefyd **safon academaidd trothwy**.

**Y Cod Ansawdd**
Term byr am God Ansawdd Addysg Uwch y DU, sef y gyfres i'r DU gyfan o **bwyntiau cyfeirio** i ddarparwyr addysg uwch (y cytunwyd arnynt drwy ymgynghoriad gyda'r gymuned addysg uwch, a'i gyhoeddi gan QAA), sy'n nodi'r **Disgwyliadau** y mae gofyn i bob darparwr eu cyflawni.

QAA2088 - R9714 - Mawrth 18

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2018
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557050
Gwefan: [www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)